# heddwch

gwanwyn 2006
rhif 38
am ddim (neu gyfraniad)

cylchgrawn CND Cymru




graffig: jill gibbon

# dathlu'r hyn sy'n bosibl

**faslane 365**

**fforwm cymdeithasol cymru**

**dim arfau niwclear - hen neu newydd**

**cadwch gymru'n ddi-niwclear**

**peidiwch ymosod ar iran**

# heddwch

**yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru).**

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.**

**Croeso i sylwadau, llythyron a erthyglau**


**Golygydd:**
Jill Stallard
(01495) 773 180
heddwch@cndcymru.org

**Cyfiethydd:**
Sian Edwards
sian@derwen.demon.co.uk

**Argraffwyd a dosbarthwyd gan:**
Redkite Print
(01591) 610 844
redkiteprint@thefreeflyer.com


# Mae'n bryd datgelu'r rhagrith yma

**Pe na bai'n sefyllfa mor beryglus a gofidus, byddai ymateb yr UDA a Prydain i'r newyddion fod Iran yn ailgychwyn cyfoethogi wraniwn yn chwerthynllyd. Mae condemnio gwlad, beth bynnag fo'i sefyllfa, am ddatblygu'r adnoddau i greu arfau niwclear yn rhywbeth rydym oll yn gytun ar. Fe fyddem wrth gwrs yn cynwys Prydain, yr UDA, Ffrainc, Israel ac eraill yn hyn.**

Ond ar yr un pryd a ceisio rhwystro Iran rhag cael gafael ar arfau niwclear mae Prydain yn ystyried datblygu cenhedlaeth newydd o arfau niwclaer i gymryd lle trident, mae'r UDA a Prydain yn profi rhannau arfau niwclaer yn Nevada, maent oll yn anwybyddu eu ymrwymiadau dan y Cytundeb Gwrth-Ymlediad (NPT) ac mae Ffrainc wedi datgan y byddai yn defnyddio arfau niwclear.

Beirniadodd Senedd Ewrop weithredoedd Iran mewn datganiad fis Chwefror. Ond beirniadodd hefyd fethiant llwyr Cynhadledd Adolygu'r NPT ac Uwchgynhadledd Byd y CU i ddelio gyda diarfogi niwclear yn ystod 2005.

Ac mae son cynyddol am "ateb milwrol" yn Iran. Mae erthyglau yng ngwasg yr UDA yn dynodi bod cynlluniau ar droed a'r opsiynnau yn amrywio o ergyd penodol yn erbyn cyfarpar i ymosodiad llawn gyda'r bwriad o 'newid regime'. Ar ol gweld y blynyddoedd diwethaf yn Irac byddech chi'n meddwl bod ganddyn nhw fwy o synnwyr.

Ac o bryder mawr, mae'r trafodaethau yma fwyfwy yn ystyried defnyddio arfau niwclear 'tactegol' yn erbyn Iran.
Tan yn ddiweddar roedd Ffrainc yn derbyn yr egwyddor o 'dim ergyd cyntaf' ond mewn araith yng ngorsaf llongau tanfor niwclear L'Ile Longue yn Llydaw fis diwethaf dywedodd yr Arlywydd Jacques Chirac y byddai'n fodlon defnyddio arfau niwclear Ffrengig; *"Yng ngwyneb pryderon y presennol ac ansicrwydd y dyfodol, mae ataliad niwclear yn parhau i fod yn warant sylfaenol ein diogelwch."* Aeth yn ei flaen i ddweud ei fod yn gweld arfau niwclear Ffrainc fel *"elfen creiddiol yn niogelwch cyfandir Ewrop"*, fel rhan o bolisi Diogelwch ac Amddiffyn Ewropeaidd.

Mae Awstria, sydd yn Llywyddu'r Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd yn draddodiadol yn cael ei weld fel gwrth-niwclear ond mae swyddog sy'n gweithio i lywodraeth Awstria wedi dweud bod Chirac wedi gosod pwnc arfau niwclear yn ol ar agenda'r UE ac y dylid siarad am ddefnydd arfau nwiclear yng nghyd-destun amddiffyn UE a gosod rheolau ar pryd dylid eu defnyddio. Byddai hyn yn gwneud Ewrop oll yn ardal nwiclear, yn erbyn dymuniadau nifer o wladwriaethau a mwyafrif llethol y boblogaeth.

Mae'n rhaid i ni wneud safiad a datgelu'r rhagrith yma, Mae'n angrhedadwy fod defnyddio arfau niwclear yn cael ei drafod o ddifri fel opsiwn realistaidd yn y byd heddiw. Mae'n rhaid i ni ddweud na newn ni dderbyn hyn - nid yn fy enw i, nid yn Ewrop, nid yn Nevada ac nid yn Iran.

**Jill Evans ASE, Cadeirydd - CND Cymru**



DISGWYL AM ESGUS? ATALIWCH Y RHYFEL CYN IDDO DDECHRAU

## iran ac ymlediad niwclear

# CND yn galw am Ddwyrain Canol Di-niwclear

Mae'r Ymgyrch dros Ddiarfogi niwclear wedi ymateb gyda braw i adroddiadau fod yr UD wrthi'n swyddogol yn cynllunio ar gyfer ymosodiad milwrol ar Iran. Gan anwybyddu pryder byd-eang llywodraethau, grwpiau pwyso ac unigolion ynglwn -â chanlyniadau treisgar ymosodiad ar Iran, dywedir fod cynllunwyr rhyfel y Pentagon wrthi'n dethol targedau ar gyfer cyrch milwrol.

Meddai Kate Hudson, Cadeirydd CND Prydeinig, 'Mae'r datblygiad diweddaraf yma ym mholisi'r UD yn y Dwyrain Canol yn destun pryder mawr. Mae nifer o lywodraethau a 'sefydliadau syniadau' wedi cynhyrchu asesiadau o beth allai ddigwydd pe ceid ymosodiad ar Iran, sef trais ar raddfa eang ac ansefydlogrwydd ledled y Dwyrain Canol. Rhaid i'r llywodraeth Brydeinig bwyso ar lywodraeth Bush ar unwaith i roi'r gorau i'r cynlluniau milwrol hyn a gwneud eu gorau glas i ddatrys cwestiwn rhaglen niwclear Iran mewn modd heddychlon a theg. Yn ei Arolwg Safle Niwclear yn 2002, mae'r UD yn cyfaddef y gallai arfau niwclear gael eu defnyddio mewn trawiad cyntaf yn erbyn targedau sydd â'r gallu i wrthsefyll ymosodiad niwclear. Mae llawer o sôn wedi bod yn y misoedd diwethaf am gyfleusterau niwclear cyfrinachol Iran, yr honnir eu bod wedi eu claddu'n ddwfn dan ddaear.

'Rhaid i'r UD sylweddoli mae'r unig ffordd y ceir heddwch a sefydlogrwydd yn y Dwyrain Canol yw drwy greu Parth Di-Arfau Niwclear yn y rhanbarth. Yn hytrach na llunio cynlluniau rhyfel gyda'r posibilrwydd o ddefnyddio arfau trawiad cyntaf, dylai'r UD lunio cynlluniau ar gyfer diarfogi'r holl wledydd sydd ag arfau niwclear, yn ei chynnwys hi ei hun.'

# Faslane 365



**Ar y 1af o Hydref 2006, bydd menter eofn o wrthsafiad sifil yn cychwyn, i ddwyn pwysau cyhoeddus dwys o blaid diarfogi a chael gwared o arfau niwclear Prydain.** Gan adeiladu ar sail blocediau torfol blaenorol ar ganolfan arfau niwclear Trident yn Faslane, bwriedir cynnal gwarchae heddychlon parhaus am flwyddyn gron. Er mwyn i hyn allu digwydd gwahoddir grwpiau a mudiadau o'r Alban, Lloegr, Cymru a gwledydd eraill i ddod i gau'r ganolfan i lawr am o leiaf un cyfnod 48-awr yr un yn ystod y flwyddyn.

### Allan â'r dinistriol

Mae Faslane 365 yn gobeithio dod â phobl i dystio ac i darfu ar y ganolfan niwclear lle cedwir arfau niwclear Prydain, a'u galluogi i fynegi'r amrywiaeth o bryderon difrifol – o hawliau dynol i newidiadau yn yr hinsawdd – sydd, ym marn pobl yn y 'byd real', yn wir her i ni yn yr 21ain ganrif.

I'r diben yma, mae Faslane 365 yn gofyn i amrywiaeth eang o grwpiau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol o bob adran o gymdeithas sifil i ddod i Faslane gydag o leiaf 100 o bobl sy'n ymrwymo i aros ac amlygu eu gweledigaeth o ddyfodol cyfiawn a heddychlon am o leiaf un cyfnod 48-awr. Gallai grwpiau llai ymuno ag eraill i ffurfio'r nifer angenrheidiol.

### I mewn â'r creadigol!

Gobeithir y bydd digon o bobl yn barod i flocedio a tharfu ar weithgareddau'r ganolfan niwclear yma, ac y bydd grwpiau'n ystyried ffyrdd creadigol ac arloesol o 'wneud y cysylltiad' rhwng y materion sydd o bwys iddyn nhw, a'r adnoddau sy'n cael eu gwastraffu ar Trident. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, cerddoriaeth, theatr, gweithdai, gwyliau neu 'ailaddurno' y ganolfan.

Bydd pob grwp yn ymrwymo i ddilyn canllawiau sefydlog sy'n pwysleisio gweithredu di-drais a pharch at bawb, ac yn ymrwymo i'r prif beth rydym yn galw amdano: **Rhaid rhoi'r gorau i Trident a dylai'r llywodraeth lunio amserlen ar gyfer dileu'r arfau, ynghyd ag ymrwymiad i beidio â datblygu unrhyw arfau niwclear newydd.**

### heddweithredu:

**Byddwch yn rhan o'r cyfle unigryw yma i newid pethau! Mae Faslane 365 yn disgwyl bod â 100 o grwpiau yn barod ar gyfer y can diwrnod cyntaf cyn cychwyn ar y weithred. Bydd digon o gymorth a chefnogaeth ar gael, yn cynnwys gweithdai ar weithdredu di-drais, a phecyn cefndir manwl. Os oes gennych ddiddordeb mewn ffurfio grwp o 100 o Gymru, cysylltwch â Jill Stallard (gweler Cysylltiadau CND Cymru, tud. 16) neu Del Harris, tel (01974) 831 575 ebost: coney@gn.apc.org Cysyllter â Faslane 365 am wybodaeth fwy penodol ac i drafod unrhyw gwestiynau neu faterion ymarferol.**
**www.faslane365.org**
**info@faslane365.org**
**(01263) 512 049**

# Milwyr Adre o Irac! Peidiwch ag Ymosod ar Iran!

**Gwrthdystiad a phrotest yn Llundain**
**Dydd Sadwrn 18fed o Fawrth**
**Ymgynnull am 12pm**
**yn Sgwâr y Senedd**

## Rhesymau dros fod yno:

- Mae Irac yn dioddef – mae'r goresgyniad wedi dinistrio mwy na 100,000 o fywydau, ac nid oes terfyn i'w weld. Mae'r Iraciaid am i'n milwyr ni fynd.

- Mae milwyr Prydeinig yn marw yn rhyfel Blair – dros 100 hyd yn hyn, gyda channoedd eraill wedi eu hanafu'n dost.

- Mae'r UD a Phrydain yn cynllwynio ymosodiadau newydd – yn erbyn Iran yn bennaf. Gallai'r rhyfel ledaenu a gallai droi'n rhyfel niwclear.

- Dywedwyd celwydd wrthym am yr ymosodiad yn Irac – mae'n hen bryd gwneud Blair yn atebol am ei benderfyniadau, sydd wedi tanseilio democratiaeth.

- Mae polisi tramor Blair yn gwneud Prydain yn darged i frawychwyr – fel y profodd erchylltra Gorffennaf y 7fed llynedd.

- Mae rhyddid dan fygythiad – mae hawliau sifil yn cael eu rhwygo'n ddarnau gan y llywodraeth oherwydd y 'rhyfel ar frawychiaeth' fel maen nhw'n ei alw.

- Mae Mwslimiaid Prydeinig o dan fygythiad. Rhaid i ni sefyll gyda'n gilydd i amddiffyn cymunedau rhag ymosodiadau gan hilwyr Islamoffobig.

- Mae biliynau'n cael eu gwastraffu ar oresgyniad Irac ac Afghanistan, arian y gellid ei ddefnyddio i dalu am bensiynau a gwasanaethau cyhoeddus ym Mhrydain.

- Mae Mawrth 18fed yn ddydd o weithredu rhyngwladol yn erbyn y goresgyniad. Mae protestiadau wedi eu trefnu ledled y byd, yn cynnwys yn Irac.

- Bydd y byd yn gwylio – gadwch i ni ddangos i gyfeillion a gelynion fel ei gilydd fod pobl Prydain yn gwrthwynebu goresgyniad Irac a'r bygythiadau i heddwch y byd ac i'n rhyddid.

Bydd bysys yn mynd i Lundain o Gymru: ffoniwch (01792) 526 405 i gadw tocyn.

# Di-niwclear?

**John Cox yn cymharu a chyferbynnu ymgyrchoedd CND heddiw gyda rhai 25 mlynedd yn ôl pan oedd olynydd i Polaris ac ynni niwclear yn faterion llosg, a phan aeth Cymru yn wlad 'ddi-niwclear'.**

**Aeth Cymru'n wlad 'ddi-niwclear' yn symbolaidd chwarter canrif yn ôl pan gymeradwyodd yr wyth cyn-Gyngor Sir benderfyniadau 'di-niwclear'. Dyma ganlyniad blynyddoedd o ymgyrchu dwys yn erbyn cynlluniau NATO i leoli taflegrau cruise niwclear ar Gomin Greenham a mannau eraill yn Ewrop, a chynlluniau'r llywodraeth Brydeinig i adeiladu byncar yng Nghaerfyrddin a rhannau eraill o Gymru, er mwyn esgus fod modd goroesi rhyfel niwclear.**

## Y 'bygythiad'

Ar y pryd, dywedid fod Prydain dan fygythiad gan Undeb Sofietaidd a oedd ag arfau niwclear a lluoedd arfog 'confensiynol' llawer cryfach na ni, a bod angen ein brawatalydd niwclear 'da' ni i wrthbwyso hynny. Er yn seiliedig ar gelwydd mawr, roedd hon yn ddadl gydlynol.

Heddiw, honnir mai'r 'bygythiad' yw 'ffwndamentalwyr crefyddol' sydd, heb boeni am eu bywydau eu hunain, yn lladd ac anafu pobl ddiniwed. Does neb yn egluro sut neu pam y mae arfau niwclear yn mynd i fraw-atal y fath bobl.

Ar ôl dadlau yn CND am bron hanner canrif fod y dinistr a'r gofid a achosir gan arfau niwclear yn gwneud eu defnyddio'n anfoesol, hyd yn oed fel ymateb i ymosodiad, mae'n amlwg ei bod hi'n llawn mor anfoesol eu defnyddio yn erbyn dyrnaid o unigolion (ni waeth beth fo'u cred grefyddol). Mae'r achos moesol yn erbyn arfau dinistr torfol (ADT) mor ddilys heddiw ag ydoedd pan sefydlwyd CND ym 1958.

## Ymlediad

Dadl arall, ond llawn mor argyhoeddiadol, gan CND ym 1958 oedd, hyd yn oed os oedd arfau niwclear UDA a'r Undeb Sofietaidd yn creu cydbwysedd arswyd, a rhoi rhywfaint o sicrwydd na feiddiai'r naill neu'r llall gychwyn rhyfel niwclear, doedd hyn ddim yn cyfiawnhau arfau niwclear Prydeinig. I'r gwrthwyneb, roedd brawatalydd niwclear annibynnol Prydain yn fan cychwyn i ras arfau 'lorweddol' rhwng y pwerau niwclear llai. Roedd hyn, yn ei dro, yn cyfiawnhau arfau niwclear annibynnol Ffrainc, China, India, Pakistan, Israel a gwladwriaeth apartheid De Affrica.

Diflannodd y brif 'ddadl filwrol' o blaid arfau niwclear UDA gyda'r Undeb Sofietaidd. Ofn pennaf y Gwledydd Arfau Niwclear (GAN) nawr yw y bydd gwledydd fel Iran yn ymuno â nhw yn y 'clwb niwclear' ac yn ymddwyn yn union fel y gwnaethant hwythau ers degawdau. Ar ôl anwybyddu'r ffaith fod gan Israel a De Affrica apartheid, eu cynghreiriaid, arfau niwclear, dydy'r GAN ddim am i Iran a Gogledd Korea ddilyn yr un llwybr.

A derbyn nad oes bellach arlliw o fygythiad milwrol i gyfiawnhau ein harfau niwclear ninnau (ac na bu erioed), rhaid bod rheswm arall dros brynu system ADT mwy dinistriol byth i gymryd lle Trident. Mae'r pwysau o blaid olynydd i Trident yn dod oddi wrth y cymhlyg milwrol-diwydiannol sydd ag angen adeiladu arfau newydd a mwy proffidiol, waeth beth fo'r angen go iawn neu ddychmygol, ac er gwaethaf cyfraith ryngwladol. Gorchwyl eu cleient, y llywodraeth, yw creu hinsawdd o fraw i gyfiawnhau prynu'r arfau hyn.

## Ynni niwclear

Mae dadleuon cyffelyb ynglyn â mater cysylltiedig ynni niwclear. Fel y gwyr pawb, ac fel sy'n cael ei gydnabod yn gyhoeddus o'r diwedd, ni fwriedid i'r genhedlaeth gyntaf o orsafoedd pwer niwclear fod yn llwyddiant masnachol: eu diben oedd gwneud plwtoniwm ac wraniwm wedi'i gyfoethogi ar gyfer arfau niwclear. Ar ôl cyflawni'r diben yma, diflannodd yr achos (milwrol ei sail) o blaid gorsafoedd pwer niwclear newydd.

Mae gan y lluoedd arfog fwy na digon o ddeunydd graddfa-arfau i fodloni eu 'hanghenion' ond maent bellach, yn anffodus, wedi creu galw newydd, pwerus sydd â'i agenda ei hun. Er mwyn cynhyrchu incwm, mae'r diwydiant niwclear wedi gwerthu gorsafoedd pwer niwclear a thechnegau prosesu ledled y byd ac, ym Mhrydain, mae wrthi'n ymarfer ei ddadleuon o blaid adeiladu gorsafoedd pwer niwclear newydd a - fel y gobeithia - mwy diogel.

## Deunydd ymholltol

Er nad yw'n fygythiad mor uniongyrchol i'r ddynolryw ag y bydd olynydd i Trident, mae pob gorsaf bwer niwclear newydd yn cynyddu'r swm o ddeunydd ymholltol y gellir ei ddefnyddio ar gyfer arfau niwclear newydd ac yn ei gwneud hi'n ystadegol debycach y bydd criw newydd o benboethiaid crefyddol neu wleidyddol rywle, yn hwyr neu'n hwyrach, yn cael gafael arno.

Wrth wrthwynebu pwer niwclear, mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng dadleuon diamheuol a rhai dyfaliadol. Mae'r dadleuon sicr a diamheuol yn dibynnu ar y ffaith fod pwer niwclear, o anghenraid, yn cynhyrchu deunydd ymholltol sydd, yn absenoldeb trefn fyd-eang sy'n dileu rhyfel, anghyfiawnder a gwrthdaro, yn gwneud rhyfel niwclear yn fwy posib – ac felly'n fwy tebygol. Dadleuon dyfaliadol yw'r rhai sy'n hawlio fod y problemau presennol ynglyn â diogelwch a chael gwared o wastraff niwclear, yn dechnolegol amhosib eu datrys. Er y gallai'r ddadl honno, mewn amser, brofi fod yn wir, mae'n bwysig ein bod yn cydnabod fod problemau cyfredol yn deillio o'r ffaith i adweithyddion niwclear gael eu hadeiladu ar frys gwyllt yn unswydd er mwyn cynhyrchu deunydd ymholltol gradd-arfau.

CYMRU DDI-NIWCLIAR

Ymhen amser, mae'n debyg y ceir hyd i atebion technolegol i broblemau gwastraff niwclear a diogelwch gweithredu – efallai hyd yn oed am gost dderbyniol o safbwynt masnachol. Ond does dim ateb technolegol a all atal cynhyrchu deunydd ymholltol a allai gael ei ddefnyddio ar gyfer arfau – felly dyma'n brif ddadl yn erbyn pwer niwclear, o anghenraid. Yn wyneb y ffaith fod mwy na digon o ddeunydd ymholltol yn bod eisoes ar gyfer 'anghenion' milwrol, prin y gellir dychmygu na fydd yr hyn sydd dros ben yn syrthio rywbryd i ddwylo pobl a fyddai'n fodlon ei ddefnyddio. Dyna berygl anorfod pwer niwclear.

## Ddoe a heddiw

Er bod yr ymgyrchoedd cyfredol yn erbyn olynydd i Trident a phwer niwclear yn ymddangos yr un fath â'r rhai yn erbyn olynydd i Polaris (rhagflaenydd Trident) a phwer niwclear bum mlynedd ar hugain yn ôl, mae'r llywodraeth wedi newid ei safle'n sylweddol, tra'n pwysleisio ofnau ynglyn ag ymlediad llorweddol. Dyna ail ddadl sylfaenol CND – sef bod arfau niwclear yn ddiwerth o safbwynt milwrol ac y gallai Prydain ddiarfogi'n unochrog heb unrhyw berygl i 'ddiogelwch'.

Mae'n hachos moesol yn erbyn meddu ar arfau niwclear yn gryfach heddiw – o'r safbwynt fod y llywodraeth yn cydnabod nad oes unrhyw wladwriaeth ag arfau niwclear yn ein bygwth. Mae hyn yn golygu ei bod felly, o anghenraid, yn ystyried defnyddio arfau niwclear yn erbyn gwlad ddi-niwclear – sefyllfa wahanol iawn i'r un a ragwelwyd yn wreiddiol.

Nid yw'r achos milwrol dros adeiladu gorsafoedd pwer niwclear newydd yn bod mwyach, ychwaith – mae digon o ddeunydd ymholltol ar gael eisoes i lwyr ddileu bywyd ar y ddaear. Felly, os bwriedir creu unrhyw orsafoedd pwer niwclear newydd, rhaid eu hadeiladu yn ôl yr un rheolau a rheoliadau sy'n llywodraethu unrhyw fenter fasnachol arall, gan fodloni gofynion iechyd, diogelwch a'r amgylchedd (yn cynnwys darparu cynllun adfer llawn wedi'r dadgomisiynu) – yn union fel pawb arall.

Newid mawr arall i ni heddiw yw fod y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnig gwell ffocws i ymgyrchu na'r hen Gynghorau Sir. Mae rheswm da dros fod yn obeithiol y bydd nerth y gwrthwynebiad yng Nghymru i olynydd i Trident yn cael ei adlewyrchu gan Ddatganiad o Farn gan (y rhan fwyaf) o Aelodau'r Cynulliad sy'n gwrthwynebu cynlluniau'r llywodraeth Brydeinig.




**Mae John Cox yn Is-lywydd ac yn gyn-Gadeirydd CND Prydeinig. Mae wedi bod yn weithgar yn y mudiad heddwch er 1949.**

# Heddweithredu yn erbyn olynydd i Trident

**Mae'r llywodraeth yn parhau â'i chynllun i ddiweddaru system arfau niwclear anghyfreithlon, wastraffus ac anfoesol Trident. Mae CND Cymru yn parhau i gadw mater olynu Trident yn ganolog i'w waith.**



### Ffrindiau a Pherthnasau, Cydweithwyr a Dieithriaid ar y Stryd

Da chi, daliwch ati i gasglu enwau ar ein Deiseb Dim Trident. Byddem wrth ein bodd i ddanfon mwy o ddeisebau atoch – ar gael o swyddfa CND Cymru (gweler Cysylltiadau tt. 14/16/18).

### Aelodau Seneddol

Dydy hi byth yn rhy fuan neu'n rhy hwyr i sgrifennu at Tony Blair, eich AS neu gynrychiolydd etholedig arall ynglyn â'r mater yma. Mae rhagor o bapurau cefndir i'ch helpu ar gael o swyddfa CND Cymru (gweler Cysylltiadau tt. 16).

### Cynnig Boreol 649

Fod y Ty hwn yn credu y dylid cynnal y drafodaeth gyhoeddus lawnaf bosibl ynglyn ag unrhyw olynydd i system longau tanfor niwclear Trident; yn nodi fod y llywodraeth wrthi'n trafod olynydd posibl gyda llywodraeth yr UD a allai gostio hyd at £15 biliwn; yn credu ymhellach, o fewn ysbryd y Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear a'r angen am ostwng tensiwn o gwmpas y byd, fod angen dadl gyhoeddus ac agored a ddylai gynnwys polisi amddiffyn di-niwclear; ac yn galw ar y llywodraeth i beidio â chwblhau unrhyw gytundebau gyda'r Unol Daleithau, neu wneud paratoadau ar gyfer adeiladu cenhedlaeth newydd o arfau niwclear tan wedi'r ddadl hon a phenderfyniad clir gan y senedd.

**Da chi, sgrifennwch at eich AS yn amgau testun y Cynnig hwn a gynigiwyd yn wreiddiol gan Jeremy Corbyn AS, a gofynnwch iddo/iddi ei arwyddo. Os yw'ch AS yn Weinidog, neu'n aelod o'r llywodraeth, ni chaiff ei arwyddo, ond sgrifennwch p'run bynnag a gofynnwch a ydyw'n cefnogi'r mater. Os yw'r AS eisoes wedi arwyddo CB 649, llongyfarchwch ef neu hi a mynegi'r gobaith y bydd yn annog aelodau eraill i wneud hynny hefyd. Anfonwch gopïau o unrhyw atebion at CND Cymru os gallwch, os gwelwch yn dda.**

**Wrth i ni fynd i'r wasg, dim ond pump AS Cymreig a oedd wedi arwyddo CB 649: Nia Griffith, Albert Owen, Martin Caton, Mark Williams a Hywel Williams.**

# Rhyfel Creulon, Marwolaethau Dianghenraid

**Cynhaliodd grwpiau ledled Cymru wylnosau i nodi marwolaeth y 100fed milwr Prydeinig yn Irac ym mis Ionawr.**

.Meddai Ray Davies, Is-gadeirydd CND Cymru:
'Cant o filwyr a mwy na 31,000 y gwyddom amdanyn nhw o bobl gyffredin Irac yn farw, mae hyn yn ormod o farw a ddiodef. Rhaid i'r lladdfa ddod i ben a rhaid dod â milwyr Prydain adref. Mae angen i'r rhyfel hwn orffen, ac mae angen iddo orffen nawr.

Meddai Leanne Wood AC:
'Fe ymgyrchon ni yn erbyn y rhyfel yma am ei fod yn anghyfreithlon. Fe rybuddion ni y byddai'n lladd llawer o bobl. Mae mwy na 100,000 o sifiliaid Iraci wedi colli eu bywydau ers i ni gychwyn yr ymgyrch yma. Ac rydym erbyn hyn wedi colli 100 o ddynion a menywod ifanc o'r DU. Rydym yn erbyn y rhyfel yma am ein bod yn erbyn y lladd. Byddwn yn parhau i ymgyrchu dros fyd lle nad oes angen i ni ladd ein gilydd er mwyn datrys anghydfod.'

## Wrecsam

Gwrthdystiodd aelodau o FfHCW ar gylchfan Plas Coch. meddai Tim White ar ran y grwp: 'Dywedodd John Reid ei bod hi'n "amser priodol i ystyried dewrder ac aberth lluoedd arfog Prydain". Mae aelodau o'r lluoedd arfog yn ddewr, siwr iawn; o ran aberthu, mae'r dynion a'r menywod yma'n cael eu haberthu gan lywodraeth Blair i'w dibenion ei hun.'

**heddweithredu: ymunwch yn yr ymgyrch yn y Gogledd-ddwyrain, cysylltwch â Fforwm Heddwch a Chyfiawnder Wrecsam 0845 330 4505 neu ebost wrexhamsaw@yahoo.com.**

## Bangor

Roedd yn fore Sul llwyd, y 5ed o Chwefror, pan ddaeth grwp o bobl o Fangor ac Ynys Môn ynghyd o dan faner heddwch, y tu allan i Eglwys Gadeiriol Bangor i nodi marwolaeth, erbyn hynny, 101 o filwyr Prydeinig yn Irac. Roedd y grwp hefyd yn nodi marwolaeth merch fach naw mlwydd oed, Aya al-Astal, a gafodd ei saethu yn ei gwddf a'i stumog gan filwr Israelaidd am iddi grwydo'n rhy agos at y wal ddiogelwch yn Gaza. Digwyddodd y farwolaeth drasig hon ar ddydd etholiadau Palesteina. Ni cheir heddwch hyd y cydnabyddir anghenion y ddwy ochr. Darllenwyd enwau'r milwyr Prydeinig yn gyhoeddus wedyn. Eglurodd Linda Rogers, o Grwp Heddwch a Chyfiawnder Bangor ac Ynys Môn yn ddiweddarach: 'roedd hon yn dasg llawer mwy anodd nag yr oeddwn wedi dychmygu. Nid dim ond enwau oedd y rhain, ond pobl a oedd wedi siarad â ni drwy eu teuluoedd a thrwy amgylchiadau erchyll y rhyfel yn Irac. Yn bwysig iawn, buom hefyd yn cofio'r miloedd lawer o Iraciaid na chofnodwyd eu marwolaeth. Rydym yn meddwl am eu teuluoedd nhw hefyd.'






foto: wendy lewis

**Cynhaliwyd gwylnos ger cerflun Aneurin Bevan, Heol y Frenhines, Caerdydd.**

**heddweithredu: Mae Grwp Heddwch a Chyfiawnder Bangor ac Ynys Môn yn dal i wrthwynebu'r goresgyniad anghyfreithlon a'r ffaith fod bywydau diniwed yn cael eu dinistrio. I gymryd rhan mewn digwyddiadau eraill yng ngogledd-orllewin Cymru, cysylltwch â nhw ar: (01248) 490 715 phil@tycerrig1.freeserve.co.uk http://www.bangorpeace.co.uk/**

## Aberhonddu

Ar Chwefror 4ydd rhynllyd, safodd Grwp Heddwch a Chyfiawnder Brycheiniog yn y dref garsiwn hon, ac arddangos placardiau a ddywedai:

ALL HAD NAMES
ALL WERE LOVED
ALL ARE MOURNED

Safodd sawl aelod o'r cyhoedd i ddweud eu bod nhw'u hunain wedi ymladd yn Irac neu fod aelodau o'u teulu wedi bod yno neu'n dal i fod yno. Cofiodd y grwp hefyd am yr heddychwr Cristnogol o Brydain, Norman Kember, sy'n dal yn garcharor ar ôl cael ei gipio yn Baghdad ym mis Tachwedd y llynedd. Darllenodd aelodau ar yr wylnos gyfres o weddïau iddo, a gyhoeddwyd gan Pax Christi.

**heddweithredu: Mae'r grwp yn bwriadu cynnal stondidau neu bleidlais stryd yng Nghrucywel ac yn y Gelli. Mae cefnogaeth yn hollbwysig. Cysylltwch â Grwp Heddwch a Chyfiawnder Brycheiniog: Mike Gatehouse e-bost: bpjg@phonecoop.coop Ffôn: (01874) 658 564**

## Iesgob Dafydd!

Mae Esgob Tyddewi, Carl Cooper, yn dilyn yn ôl traed cyn-Archesgob Cymru, Rowan Williams, wrth gondemnio ymdrechion i 'atal brawychiaeth fyd-eang drwy ddulliau trais'. Mewn cynhadledd ar 'Islamophobia' yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin, ymosododd yr Esgob ar George Bush a'i 'ryfel ar fraw', y syniad y gellir 'ennill' rhyfel, diffyg dealltwriaeth llywodraethau'r UD a Phrydain o'r modd y gellir ymdrin ag achosion brawychiaeth, a'r cysyniad ein bod yn cymryd rhan mewn rhyw fath o grwsâd. Mynegodd yr Esgob ei siom yn Rhodri Morgan am fethu dweud a oedd yn cytuno â'r llywodraeth yn ei 'rhyfel' yn erbyn Irac.

Aeth yr Esgob Cooper ymlaen i ddweud mai'r '1.3 biliwn o Fwslimiaid yn y byd a fydd yn penderfynu pwy yw'r merthyron a phwy yw'r llofruddion', nid George Bush neu unrhyw 'ryfel ar fraw'. Dywedodd y bydd hinsawdd o ofn yn erydu hawliau sifil ac yn cynyddu anghyfiawnder ac aflonyddwch.

## Gweithredu dros Heddwch a Chyfiawnder Trefyclo

Ar ôl blynyddoedd o ymwneud ag CND, symudais o Ganolbarth Lloegr i ororau Cymru ac ymuno â grwp newydd ei atgyfodi Gweithredu dros Heddwch a Chyfiawnder Trefyclo. (GHCT)

Mae GHCT yn cwrdd bob pythefnos ac mae ganddo ddiddordebau eraill heb law am rai niwclear. Ar hyn o bryd, mae'n canolbwyntio ar arfau a phwer niwclear, Palesteina, Irac a hawliau sifil.

Mae'n cynhyrchu 'The Word on the Street', crynodeb tudalen o hyd rheolaidd o eitemau newyddion o bwys cyfredol. Mae hwn yn cael ei lynu ar waliau'n ddienw yn y dref. Y cam nesaf wedyn yw tynnu mwy o sylw iddo gyda sticeri a llythyron 'hynod' at y wasg leol. Cyn ac yn ystod y rhyfel yn Irac, dosbarthwyd taflenni i bob tw yn y dref ddwywaith, cynhaliwyd gwylnosau wythnosol, gorymdaith o 80 o bobl drwy Drefyclo, ac aethpwyd â bysys llawn i'r gwrthdystiadau yn Llundain. Mae GHCT yn parhau i gefnogi'r galw am 'uchelgyhuddo Blair', mynd â deisebau allan ar y strydoedd a dangos ffilmiau yn erbyn y rhyfel. Cynhaliwyd cyfarfodydd ar Afghanistan, Irac a Phalesteina. Denodd cyfarfod cyhoeddus, 'The Abolition of War', gyda Bruce Kent yn siarad, 250 o bobl, a siaradodd Bruce mewn ysgol leol hefyd. Denodd stondin stryd wythnosol 99 o lofnodion yn ddiweddar ar y ddeiseb '*Dim Byd yn lle Trident*'.

**Jenny Maxwell**

**heddweithredu: mae gweithgareddau Gweithredu dros Heddwch a Chyfiawnder Trefyclo yn y dyfodol yn cynnwys**
**Mawrth 4ydd – Stondin stryd gyda deiseb Trident**
**Mawrth 18fed – Bws i Lundain ar gyfer gwrthdystiad Atal y Rhyfel Llundain Cysyllter â: (01547) 550 354**

### addysg heddwch

## Gwobrau Mala Heddwch i Ieuenctid

Breichled symbolaidd yw mala heddwch sy'n hyrwyddo cyfeillgarwch, parch a heddwch rhwng crefyddau a holl bobl ein byd. Mae'n torri drwy bob math o ragfarn ac yn dathlu beth sy'n ein gwneud yn wahanol i'n gilydd.

Mae'n weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Dechreuodd y project yn Llanelli ac mae nawr yn cael ei redeg o Dreforys, ger Abertawe. Mae'r arian a godwyd drwy werth'r 'Mala Heddwch Pwrpasol' o waith arian yn cael ei fuddsoddi yn y Gwobrau Mala Heddwch i Ieuenctid a fydd bellach yn ddigwyddiad blynyddol. Gall unrhyw berson ifanc sy'n aelod o ysgol, coleg, clwb ieuenctid, grwp crefyddol neu unrhyw ganolfan addysg arall gystadlu yn y Gystadleuaeth Mala Heddwch i gynhyrchu project sy'n rhannu ac yn hyrwyddo gweledigaeth y Mala Heddwch. Mae dwy wobr: un ar y lefel iau (5-11) a'r ail i rai hyn (12-18).

**heddweithredu:Bwriad y gystadleuaeth yw annog pobl ifanc i fod yn ymwybodol o faterion yn ymwneud â heddwch, cyfiawnder, goddefgarwch a chyfeillgarwch a chyfranogi. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn cynigion i'r gystadleuaeth yw dydd Gwener 19eg Mai. Ceir y rheolau a chanllawiau cystadlu am y Gwobrau Mala Heddwch ar y wefan www.peacemala.org.uk ebost: info@peacemala.org.uk neu ffoniwch (01792) 774225.**

### gwleidyddiaeth pŵer niwclear

## Y Llywodraeth Cynulliad Cymru am ohirio cau gorsaf bŵer niwclear Wylfa

Mae Wylfa, gorsaf bwer niwclear oedrannus Ynys Môn i fod i gau yn 2010, ond mae Llywodraeth y Cynulliad am iddi gael ei chadw ar agor tu hwnt i'w hoes normal am ei bod yn darparu'r trydan ar gyfer y gwaith smeltio Alwminiwm (AAM) ar yr ynys.

### Swyddi beth bynnag fo'r pris

Mae Ynys Môn yn ardal Amcan Un ac yn un o ardaloedd sydd dan fwyaf o anfantais economaidd yn y wlad. Gyda'i gilydd, mae'r gwaith smeltio a'r orsaf bwer yn cyflogi rhyw un o bob deg yn yr ardal (1500 o bobl). Mae'r Aelod Cynulliad Ieuan Wyn Jones wedi dweud ei fod am weld ymestyn oes yr orsaf bwer niwclear ac eto, mae'r blaid mae'n ei harwain, sef Plaid Cymru, yn gwrthwynebu adeiladu unrhyw orsafoedd pwer niwclear newydd yn Nghymru. Mae AAM yn pryderu na fyddent yn gallu bodloni eu cyfranddalwyr pe bai'n rhaid iddynt gystadlu â chwmnïau smeltio alwminiwm Norwy, sy'n defnyddio trydan dwr.

### Gwleidyddiaeth pwer

Ymatebodd Cyfeillion y Ddaear i gynigion Llywodraeth y Cynulliad gan ddweud y gallai datblygiadau ynni eraill fel dyfeisiau tyrbein llif morol arfordirol a gwaith nwy gwres a phwer cyfunedig yn y ffatri sicrhau cyflenwad o drydan cymharol rad. Galwodd Mick Bates, AC Democrataidd Rhyddfrydol ac ymgyrchydd ers tro yn erbyn pwer niwclaer, ar Llywodraeth y Cynulliad i ddihuno a gweithredu:

"Mae Cymru'n un o ddim ond tair gwlad yn y byd sydd ag ymrwymiad statudol i ddatblygiad cynaliadwy . . . Mae'r llywodraeth yn gwybod ers blynyddoedd ei bod hi'n debyg y byddai Wylfa'n cau yn 2010 – pam na luniwyd cynllun gweithredu i ymdopi â hyn?

'Mae datblygiad cynaliadwy yn cynnig ysgogiad economaidd gyda phosibiliadau anferth i Gymru. Ar Ynys Môn mae gennym eisoes weithlu medrus gyda phrofiad anferth yn y maes ynni; dylem fanteisio ar hynny i sicrhau Cymru gyfoethocach, wyrddach.'

### Ynni adnewyddadwy

Mae'r AS Democrataidd Rhyddfrydol dros Geredigion wedi galw ar y llywodraeth i ddatblygu posibiliadau Cymru ym maes tyrbinau tonnau arfordirol i gynhyrchu trydan. Dywed nad yw ynni adnewyddadwy yn golygu adeiladu tyrbinau gwynt ledled cefn gwlad Cymru, y gallai pwer tonnau Cymru ar ei ben ei hun gyflewnwi 20% o anghenion ynni Prydain, a gallai micro-gynhyrchu ac effeithlonrwydd ynni olygu na fyddai rhai adeiladau'n gorfod defnyddio trydan masnachol o gwbl: 'Pe bai hanner yr arian a wariwyd ar bwer niwclear wedi cael ei fuddsoddi mewn datblygu ffurfiau adnewyddadwy o gynhyrchu ynni, byddai'n llawer iawn gwell arnom...'

dewch atom!

# Fforwm Cymdeithasol Cymru

## lle i ddemocratiaeth go iawn

### Ebrill 28ain – Mai 1af 2006

**Mae Rhwydwaith Heddwch a Chyfiawnder Aberystwyth wedi bod yn gweithio'n galed iawn i wneud achlysur lansio Fforwm Cymdeithasol Cymru ym mis Mai yn llwyddiant. Mae Kelvin Mason yn egluro pam ddylai Cymru fod yn chwarae rhan yn y mudiad Fforwm Cymdeithasol a pham mae'r Rhwydwaith Heddwch yn gwneud eu gorau glas i wneud digwyddiad mis Mai yn llwyddiannus.**




Cynhaliwyd y Fforwm Cymdeithasol Byd-eang (WSF) cyntaf yn Porto Alegre, Brasil yn 2001, cynulliad o ryw 12,000 o bobl. I raddau, ein hymateb *ni* yw'r WSF i Fforwm Economaidd y Byd lle mae'r prif ddadansoddiad economaidd yn ystyried mai economïau *yw* cymdeithasau. Mae'r mudiad dros gyfiawnder byd-eang, ar y llaw arall, yn ystyried fod *gan* gymdeithasau economïau lle mae pobl yn llawer mwy nag ystadegau mewn dadansoddiad cost-buddiannau, ac na ellir rhoi pris ar hunaniaeth, cymuned neu natur.

Mewn geiriau eraill, dylai economi wasanaethu cymdeithas yn hytrach na chaniatáu i farchnadoedd ecsploetio pobl, a hyd yn oed gwneud caethweision ohonynt. Rydym yn cwestiynau'r modd y pennir twf economaidd fel y brif ffordd o fesur lles neu ansawdd bywyd. Dydy 'Cynnyrch Mewnwladol Crynswth', er enghraifft, yn dweud dim wrthym ynglyn â heddwch, cyfiawnder, cynaliadwyedd neu ddemocratiaeth, arwyddion hanfodol cymdeithas iach.

Esgorodd y WSF ar Fforymau Cymdeithasol ar wahanol raddfeydd ym mhedwar ban y byd. Maent yn gyfle i rannu syniadau a dysgu mwy am y pethau sydd o bwys i ni, ac yn gyfle hefyd i gynllunio a chyd-drefnu'n hymgyrchoedd, rhannu adnoddau a llunio dewisiadau amgen.

#### *Byw'r* newid

*Mae* byd arall yn bosibl ac mae Rhwydwaith Heddwch a Chyfiawnder Aberystwyth am i Gymru chwarae rhan lawn yn y byd hwnnw. Yng ngeiriau Ghandi, dylem *fyw'r* newid rydym am ei weld yn y byd. Gobeithiwn y bydd cymdeithas yng Nghymru, ar ffurf grwpiau a dinasyddion unigol, yn croesawu'r syniad ac yn manteisio ar y cyfle hwn i ddod ynghyd.

## Cefnogaeth gan Tony

**Rwyf wrth fy modd i glywed fod Fforwm Cymdeithasol Cymru yn mynd i gwrdd yn Aberystwyth, ac yn dymuno y gallwn fod yno gyda chi. Mae'r mudiad hwn wedi ysbrydoli pobl ym mhedwar ban y byd i gredu fod byd arall yn bosibl, ac yna dechrau gweithredu i sicrhau hynny. Gan gofio cyfraniad anferth Cymru o safbwynt creu gwell amodau ar gyfer ei phobl, mae hwn yn gyfle gwych.**

**Mewn undod,**
**Tony Benn**

Nid yw Cymru'n wlad anferth, a bydd yn rhaid i'r rheini ohonom sydd ag agweddau mwy blaengar tuag at y byd godi ein lleisiau gyda'n gilydd er mwyn cael ein clywed uwchlaw dwndwr prynu a gwerthu diofal. Mae'n hawdd teimlo'n ynysedig yn ein hymdrechion, a thewi o'r herwydd.

#### Cau'r bylchau yng Nghymru

Mae Bangor yn aml yn ymddangos yn gam pell i weithredwyr o Gaerdydd, a gallai broydd cefn gwlad ein cenedl ddiflannu oddi ar fap cyfiawnder byd-eang yn hawdd iawn. Hyd yn oed yn ein cymunedau, gallwn fod yn gibddall ac yn rhy brysur i fod yn ymwybodol o'r hyn mae eraill yn ei wneud. Dangosodd cynulliad o gymdeithas sifil Aberystwyth ym mis Hydref 2005 gyn lleied y gwyddem ynglyn â'n gweithgareddau'n gilydd. Ers hynny, rydym wedi cyfathrebu'n well, gan gefnogi'n gilydd mewn gweithredoedd ar y strydoedd ac yng nghanolfannau grym.

#### Dewch atom!

Un syniad a ddeilliodd o Fforymau Cymdeithasol Ewrop a'r Byd yw pwysigrwydd 'meddwl yn fyd-eang a gweithredu'n lleol'; rhaid gweithredu heddwch, cyfiawnder a chynaliadwyedd ymarferol yn ein broydd drwy weithredu democrataidd.

Felly, adeg Gwyl Banc Calan Mai, mae Rhwydwaith Heddwch a Chyfiawnder Aberystwyth yn eich gwahodd i greu Fforwm Cymdeithasol Cymru (FfCC), cyfranogi ynddo a'i fwynhau. Am un penwythnos gorlawn a chynhyrchiol rhwng nos Wener Ebrill 28ain a nos Lun Mai 1af, Aberystwyth fydd canolfan weithredu Cymru. Gall FfCC fod beth bynnag a fynnoch a beth bynnag a gyfrannwch iddo! Byddwn yn helpu i greu lle i chi lwyfannu eich digwyddiadau eich hunain a chyfranogi yn rhai pobl eraill. Eisoes mae'r syniadau a'r cynigion yn arllwys i mewn. Fe fydd rali, siaradwyr cyweirnod, rheithgor dinasyddion, seminarau a gweithdai ymarferol yn ogystal â sioeau ffilmiau, cerddoriaeth a dawns.

**Felly, cysylltwch â ni *nawr* i drafod eich cyfranogaeth: ebost information@socialforumcymru.org.uk, ffoniwch Mat ar 07767 798 601, a chadwch mewn cysylltiad â beth sy'n digwydd ar y wefan: www.socialforumcymru.org.uk**

# Ray a'r Ombudsmon

**Mae Ray Davies, Is-gadeirydd CND Cymru a Chynghorydd Bwrdeistref Sirol, wedi cael ei ddwyn ger bron yr Ombudsmon wedi ei gyhuddo o ddwyn anfri ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.**




Yn y cyfnod cyn Rhyfel Irac, torrodd Ray Davies, ynghyd â Dr Margaret Jones ac aelodau eraill o Trident Ploughshares, i mewn i SAA Aldermaston, a chrogi arwyddion yn gwrthwynebu'r rhyfel ar y ffens fewnol gan ddatgelu'r pethau anghyfreithlon sy'n digwydd yno, h.y., cynhyrchu arfau niwclear. Rhwyfodd y ddau i fyny i Afon Tamar yn Devonport hefyd, a thorri i mewn i'r Dociau gan geisio atal llong danfor niwclear rhag cael ei pharatoi ar gyfer dyletswydd yn y Gwlff. Y drydedd weithred oedd cymryd rhan yn y gwarchae ar ganolfan llongau tanfor niwclear Faslane yn yr Alban. Cafodd Ray ddirwy o £1,700 am y troseddau hyn, yn cynnwys amcangyfrif o'r niwed a wnaethpwyd i'r ffens. Gwrthododd Ray dalu'r ddirwy a chafodd ei garcharu am 14 diwrnod.

### Rhestr Anrhydedd

Derbyniodd Ray filoedd o negeseuon, o Brydain, yr UD a gweddill Ewrop, yn cynnwys rhai gan Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol Westminster. Cafodd ei gynnwys hefyd ar Restr Anrhydedd "Broken Rifle", cylchgrawn heddwch rhyngwladol. Pan gafodd ei ethol yn Gynghorydd Bwrdeistref Sirol, bu'n rhaid i Ray arwyddo datganiad na fyddai'n torri'r gyfraith droseddol. Creodd ei weithredoedd dros heddwch gyhoeddusrwydd anferth, ac adroddodd Ray ar ei weithgareddau wrth Swyddog Monitro'r cyngor, mewn ymgais i fod yn onest ac yn agored.

### Ymgais i atal trosedd fwy

Yn gynnar yn 2005, cwynodd Is-gadeirydd anetholedig pwyllgor Safonau'r Cyngor ynglyn â Ray wrth yr Ombudsmon, a'r mis diwethaf, cafodd Ray ei holi gan swyddog ymchwilio. Mae Ray yn ei amddiffyn ei hun drwy egluro ei fod yn cyflawni mân droseddau troseddol a sifil yn unswydd er mwyn ceisio atal y llywodraeth Brydeinig rhag torri'r gyfraith ryngwladol, drwy fynd i ryfel heb benderfyniad gan y CU. Nododd fod yr hyn a ddigwyddodd yn sgîl hynny wedi llwyr gyfiawnhau ei weithredoedd. Mae miloedd o filwyr Prydain a'r UD ac Iraciaid wedi marw, mae'n rhyfel cartref yn y wlad, mae argyfwng tanwydd ar y gorwel, ac mae'r datgeliadau diweddaraf ynglyn â milwyr Prydeinig yn camdrin sifiliaid Iraci wedi codi pwys ar y byd.

### Mwy o bleidleisiau na'r un cynghorydd arall

Does neb arall ym Mwrdeistref Sirol Caerffili wedi cwyno ynglyn â Ray, dim hyd yn oed ei wrthwynebwyr gwleidyddol. Fe oedd â'r bleidlais fwyaf yn yr etholiad diwethaf. Mae Ray yn cynrychioli ei gyngor yn swyddogol ar gorff Awdurdodau Lleol Di-niwclear Cymru a Phrydain.

**Nid yw Ray yn edifar am yr hyn a wnaeth. Fel y dywedodd yn y llys, Ydy, y mae'n gresynu: "yn gresynu na wnaeth neb ohonom ddigon i atal Bush a Blair rhag cychwyn y rhyfel anghyfreithlon hwn".**
**Yn ddi-os, bydd Ray yn wynebu tribiwnlys disgyblu cyn bo hir.**

**Mae'n hollbwysig fod cymaint o lythyron ag sy'n bosibl yn cael eu hanfon i'w gefnogi. Anfonwch nhw i: Welsh Administration Ombudsman,1 Ffordd y Hen Gae, Pencoed, CF35 5 LJ neu ebost (adanfonwch copi i wendy.lewis2@aladdinscave.net): ask@ombudsman-wales.org.uk**

**newyddion o fannau eraill**

# Cost trip i Cuba

Achosion cyfreithiol yn erbyn gorymdeithwyr i Guantánamo

Mae saith unigolyn o Witness Against Torture, grwp sy'n protestio yn erbyn gwadu hawliau i garcharorion ym Mhencadlys Llynges yr UD ym Mae Guantánamo, Cuba, wedi cael eu cyhuddo'n ffurfiol gan Swyddfa Rheolaeth Asedion Tramor Adran Y Trysorlys (OFAC) am dorri gwaharddiad yr UD ar deithio i Cuba. Roedd y grwp o 23 o Gristnogion o'r UD wedi cerdded mwy na 60 milltir o Santiago i Ganolfan y Llynges. Buont yn gwersylla ac yn ymprydio am bedwar diwrnod wrth glwydi'r ardal filwrol tra'n disgwyl cael mynediad i'r gwersyll.

Mae pum cant o garcharorion yn dal i fod wedi eu caethiwo gan lywodraeth yr UD yn Guantánamo. Mae mudiadau hawliau dynol a charcharorion a ryddhawyd wedi disgrifio arteithio a chamdriniaeth eithafol yn y gwersyll, ond mae llywodraeth Bush yn haeru fod Guantánamo y tu hwnt i awdurdodaeth llysoedd yr UD a rhai rhyngwladol.

Mae Witness Against Torture wedi gwrthod ateb cwestiynau OFAC, gan fynnu mai'r wir drosedd yw arteithio a chamdrin carcharorion sifil gan filwyr yr UD yn Guantánamo. Gallai aelodau Witness Against Torture wynebu uchafswm o 10 mlynedd o garchar neu ddirwy o $250,000 am eu gweithredoedd i alw sylw at arfer yr UD yn Guantánamo.

Roedd y cerddwyr yn cynnwys y Tad Steven Kelly, S.J. a'r Chwaer Anne Montgomery 79-mlwydd-oed. Pan ddychwelsant i UD, dywedodd holl aelodau'r grwp yn agored eu bod wedi ymweld â Cuba gan roi eu henwau a'u cyfeiriadau i Swyddogion y Doll. Er iddynt fod mor agored, anfonodd Adran Drysorlys yr UD lythyron ymholi at unigolion nad oedd wedi bod ar y trip.

Dywedodd Susan Crane, un o'r cerddwyr, 'Dwi'n credu ei bod hi'n bwysig fod y byd yn gwybod nad oes consensws yn y wlad hon fod arteithio'n iawn.' Yn ôl aelod arall o Witness Against Torture, Gary Ashbeck, o gymuned Jonah House yn Baltimore: 'Rhoesom yr holl wybodaeth gyfredol ynglyn â'n grwp i swyddogion yr UD a hyd yn oed wedyn, allen nhw ddim gwneud cyfrif cywir o bwy oedd ar y daith. Ymddengys, er gwaethaf eu holl ddulliau newydd o sbïo ar ddinasyddion yr UD, fod rhaglen ysbïo'n llywodraeth yn wallus iawn. Mae'n gwneud i chi amau pa mor dda yw'r wybodaeth yn achos y rhai sydd wedi eu carcharu yn Guantánamo. A wyddon nhw pwy sydd wedi eu carcharu yno hyd yn oed?'

**heddweithredu: i gael gwybod mwy neu i gefnogi Witness Against Torture: www.witnesstorture.org neu d/o Jonah House, 1301, Moreland Avenue, Baltimore, Maryland 2126 UDA (+)410 233 6238**

# Yr achos pwysicaf yn erbyn rhyfel ers Nuremberg?

**Y mis ym, mae Arglwyddi'r Gyfraith yn gwrando ar ddau achos Apêl ar y cyd gan weithredwyr heddwch a weithredodd yn uniongyrchol cyn dechrau'r rhyfel, yn RAF Fairford a Marchwood ac a fydd yn dadlau fod cyfiawnhad dros hynny am eu bod yn ceisio atal rhyfel anghyfreithlon.**

Ym mis Chwefror, dechreuodd Arglwyddi'r Gyfraith wrando ar gyd-apêl 5 Fairford ac 14 Marchwood. Mae oblygiadau cyfreithiol y dyfarniad yn aruthrol, gan y bydd yn cynnwys hawl y llysoedd i archwilio cyfreithlondeb gweithgareddau'r llywodraeth o safbwynt mynd i ryfel, hawliau ymgyrchwyr i hawlio 'atal trosedd' fel amddiffyniad i weithredu uniongyrchol yn erbyn pwer y wladwriaeth, a pherthnasedd ymddygiad rhyngwladol ein llywodraeth i'r hyn a ddisgrifiwyd yn nedryd Nuremberg fel y 'drosedd ryfel eithaf'. Ond er pwysiced yr oblygiadau cyfreithiol hyn, dydy hynny'n ddim i'w gymharu â'r canlyniadau gwleidyddol pe bai Arglwyddi'r Gyfraith yn dyfarnu, yn yr achos sydd i ddod yn Llys y Goron Bryste, fod yn rhaid i'r barnwr ddod i benderfyniad ar y cwestiwn mawr – 'a oedd y rhyfel yn gyfreithlon'?

### Regina v Jones, Milling, Olditch, Pritchard a Richards

Llwyddodd pump gweithredydd heddwch, ar wahanol adegau yn ystod yr wythnos cyn i'r rhyfel gychwyn ar yt 20fed o Fawrth 2003, gan weithredu mewn tri grup gwahanol, i dorri drwy ffens amgylchynol RAF (USAF) Fairford yn Swydd Gaerloyw. Ei bwriad datganedig oedd achosi niwed i eiddo, gyda'r bwriad o atal, neu o leiaf oedi, y paratoadau ar gyfer rhyfel a oedd yn cael eu gwneud. Roedd 14 o awyrennau bomio B-52H Awyrlu'r UD wedi cael eu hanfon yno o bencadlys 23ain Sgwadron y 'Bomber Barons' yn North Dakota, ac roeddwn nhw wrthi'n paratoi i chwarae eu rhan hyll yn yr ymosodiad 'shock and awe' ar Baghdad, yn wythnos gynta'r rhyfel.

### Regina v Ayliffe ac eraill, Regina v Swain

Ar y 3ydd o Chwefror 2003, chwe wythnos cyn dechrau'r rhyfel, glaniodd 14 aelod o griw llong Greenpeace Rhyngwladol, 'Rainbow Warrior' yng Nghanolfan Lwytho Forol y Weinyddiaeth Amddiffyn yn Marchwood ar Southampton Water. Ar ôl meddiannu rhan o'r safle, dyma nhw'n eu cadwyno eu hunain wrth gerbydau ymladd arfog Scimitar a oedd yn disgwyl i gael eu llwytho ar longau i'w cludo i Kuwait. Cafodd Val Swain, a fu hefyd i mewn yn RAF Fairford, ond wythnos cyn Jones et al, ei restio yn y ganolfan, ar ôl iddi dorri ei ffordd drwy'r ffens, ond cyn iddi allu cychwyn ar ei gweithredoedd gorfodi heddwch.

Roedd y ddau grwp o Apelwyr wedi dadlau yn eu hamddiffyniad fod ganddynt hawl, o dan adran 3 o Ddeddf Cyfraith Droseddol 1967, i weithredu'n rhesymol, fel y gwnaethant, i sicrhau na fyddai trosedd lawer mwy yn cael ei chyflawni gan y Goron, sef, yr ymosodiad anghyfreithlon ar Irac, a'r goresgyniad a'r meddiant a ddilynodd. Dadleuent hefyd y dylid fod wedi caniatáu iddynt gyflwyno tystiolaeth yn yr achos i gyfiawnhau eu cred fod y rhyfel, y ceisiasant darfu ar/atal y paratoadau ar ei gyfer, yn weithred anghyfreithlon o drais rhyngwladol noeth, a oedd yn Drosedd yn erbyn Heddwch/ Trosedd o Ryfelgarwch fel y diffiniwyd hynny yn nhribiwnlys Nuremberg. Mae apelwyr Greenpeace hwythau wedi defnyddio dadl debyg mewn perthynas â'u collfarniad o dan adran 68 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 (tresmasu gwaethedig), hynny yw, fod y gweithgaredd yr oeddynt yn ceisio tarfu arno yn anghyfreithlon. Mae pump Fairford yn dal i ddisgwyl achos ger bron Llys y Goron ym Mryste, ar ôl colli eu hapêl yn erbyn y gwaharddiad ar gyflwyno tystiolaeth o'r fath mewn gwrandawiad paratoawl ym mis Ebrill ger bron y Llys Apêl (Adran Droseddol) ym mis Gorffennaf 2004. Cafwyd apelwyr Greenpeace yn euog gan y Barnwr Rhanbarth yn eistedd yn llys ynadon Southampton yn 2003 a chollasant eu hachos apêl dilynol yn y Llys Rhanbarthol ym mis Ebrill 2005.

**Disgwyliwn am newyddion pellach.**

# Bob a Wendy a'r criw yn cynnal Blocêd ar Aldermaston

## Rhoi caniatâd i adeiladu cyfleuster profi arfau newydd



© F. Jablonovsky

Ar y 26ain Ionawr 2006, penderfynodd Pwyllgor Cynllunio Ardal Ddwyreiniol West Berkshire i beidio â gwrthwynebu'r cyfleuster lasar arfaethedig (Orion) yn SAA Aldermaston, ffatri arfau niwclear Prydain. Aeth rhwng 35 a 40 o weithredwyr a phobl eraill â diddordeb yn y mater i'r cyfarfod lle siaradodd Peter Burt a Sian Jones yn erbyn y laser, gan annog y cynghorwyr i gyfeirio'r mater yn ôl at yr Ysgrifennydd Gwladol a gofyn am ymchwiliad cyhoeddus. Roedd CND Cymru yn un o'r llu o wrthwynebwyr i'r cyfleuster arfaethedig y gobeithia'r llywodraeth a'i hasianataethau ei adeiladu i 'berffeithio' ffyrdd o fygwth ac achosi dinistr a dioddefaint ar raddfa eang. Fodd bynnag, pleidleisiodd y pwyllgor cynllunio o 7 i 1 (gyda 3 yn atal eu pleidlais) i *beidio* â gwrthwynebu. Gan hynny, ar ôl rhoi cynnig ar bob ffordd swyddogol, bu'n rhaid i'r ymgyrchwyr symud ymlaen at ffyrdd mwy 'uniongyrchol' o wrthwynebu.

Mewn ymateb i ganiatâd Cyngor Sir West Berkshire, aeth y grwp gweithredu uniongyrchol, *Blocio'r Bildars* ati i flocedio SSA Aldermaston yn ddi-drais. Tua 6.30am ar y 30ain Ionawr, llwyddodd grwpiau o flocedwyr i gau dwy o glwydi'r ffatri arfau niwclear. Cafodd wyth eu restio. Rhoddodd timau torri'r heddlu y gorau i geisio torri drwy'r offer cloi. Cynhaliwyd gwasanaeth golau-cannwyll aml-ffydd wrth y clwydi hefyd.

**heddweithredu:** **Mae mwy o Flocediau ar y gweill, croeso i bob Wendy a Bob ychwanegol. Cysylltwch â btb@aldermaston.net neu ymwelwch â www.blockthebuilders.org.uk a rhowch wybod i Blocio'r Bildars os ydych yn bwriadu mynd.**

# Chernobyl 1986 - 2006

Digwyddodd damwain niwclear waetha'r byd yn Chernobyl ar ffiniau gogleddol Ukrain, 20 mlynedd i'r mis Ebrill yma. Mae'n dal yn rhy gynnar i ddeall effeithiau tymor-hir llawn y ddamwain ofnadwy yma. Mae cyfyngiadau o ganlyniad i'r ymbelydredd a ddisgynodd ar ôl Chernobyl yn dal i effeithio ar 359 o ffermydd a chyfanswm o 53,000 hectar o dir yng ngogledd Cymru. Yn yr ardaloedd dan gyfyngiad, mae'n rhaid monitro defaid gyda chyfrifydd Geiger cyn y gellir eu gwerthu, i sicrhau na fydd cig wedi ei lygru yn mynd i mewn i'r gadwyn fwyd. Newidiwyd bywydau cannoedd o filoedd o bobl mewn ardaloedd yn nes at Chernobyl am byth. Mae Project Plant Chernobyl (PPC) yn parhau â'i waith o hysbysu pobl ynglwn ag effeithiau'r ddamwain niwclear, helpu rhai yn Ukrain, Belarus a gorllewin Rwsia yr effeithiwyd arnynt gan y ddamwain, a cheisio cau pob adweithydd niwclear ac atal adeiladu rhai newydd. Mae Cyfarwyddydd PPC, Adi Roche, yn gofyn i ni ymdrin â newyddion fod 'popeth yn iawn nawr' gyda gofal:

Wrth i brisiau tanwydd gynyddu, mae'r ddadl ynglwn â diogelwch pwer niwclear wedi ailgychwyn. Mae hyn yn neilltuol o berthnasol yng ngoleuni ugainmlwyddiant trychineb gorsaf bwer niwclear Chernobyl. Mae cam-hysbysrwydd ac ymdrechion bwriadol i wyrdroi'r 'ffeithiau' wedi ychwanegu llawer o ddryswch at y ddadl. Mae adroddiad yr Asiantaeth Ynni Atomig (IAEA) ym mis Medi 2005 yn datgan mai ychydig o bobl a fu farw o ganlyniad i ddamwain Chernobyl, heb wneud dim i ehangu'n gwybodaeth ynglwn â maint y drasiedi ond gan ychwanegu dryswch pellach tra'n anwybyddu'r holl drawma dynol ac amgylcheddol.

### Gorsaf niwclear newydd yn Belarws

Yn anfwriadol, mae Adroddiad yr IAEA, wedi rhoi cefnogaeth bellach i bolisïau'r llywodraeth yn y rhanbarthau cyn Sofietaidd yr effeithiwyd arnynt, drwy ddatgan fod trychineb Chernobyl bellach 'ar ben yn swyddogol'. Mae hefyd yn cyfreithloni polisïau'r llywodraeth o ailboblogi parthau y cafodd pobl eu hel ohonynt ac ailgychwyn trin tir o fewn y parthau ymbelydrol. Mae adroddiad yr IAEA hefyd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi adeiladu gorsaf bwer niwclear 25 milltir oddi wrth yr adweithydd a ffrwydrodd yn Chernobyl, dros y ffin yn Belarws.

Mae cytundeb sy'n dyddio o 1959 rhwng y WHO (Sefydliad Iechyd y Byd) a'r IAEA yn cael ei ddefnyddio i lesteirio rhyddid y WHO i gynhyrchu deunydd ar ganlyniadau Chernobyl. Un o amcanion yr IAEA yw hyrwyddo a rheoli gorsafoedd pwer niwclear ledled y byd. Dywed Erthygl III o gytundeb 1959: ' mae'r IAEA a'r WHO yn cydnabod efallai y bydd yn rhaid iddynt weithredu rhai cyfyngiadau er mwyn diogelu gwybodaeth gyfrinachol a roddir iddynt.'

### Cwestiynau

Ar ôl treulio llawer o'r 25 mlynedd diwethaf yn ymweld ag Ukrain a Belarws, gallaf dystio i'r ffaith fod cynnydd i'w weld, ymhlith yr hen a'r ifanc, mewn canser ac afiechydon genetig ers trychineb Chernobyl. Wrth weld a gwrando ar wneuthurwyr ffilmiau a newyddiadurwyr yn gofyn yr un cwestiwn drachefn a thrachefn, dwi'n argyhoeddedig eu bod yn gofyn y cwestiynau anghywir: 'Faint o bobl sydd wedi marw? Faint fydd yn marw? A achoswyd y canser yma neu'r salwch yna gan ymbelydredd yn bendant? Beth yw Chernobyl? Faint o ymbelydredd ddioddefoch chi? Pam ydych chi i gyd yn edrych mor iach? Dangoswch y dystiolaeth i mi.' Mae'r rhain yn gwestiynau ag atebion sydd yn aml yn amhenodol, neu heb fod yn bodloni'r rhesymeg dwt a ddisgwylir.

### Canfyddiad

Rydym yn ceisio atebion absoliwt mewn sefyllfa lle na all hynny fod, lle nad oes atebion terfynol, oherwydd rydym yn gofyn y cwestiynau anghywir. Mae pobl yn disgwyl gweld rhywbeth erchyll a chamffurfiedig, ac maen nhw bron â bod yn siomedig pan fydd pobl a phethau'n ymddangos yn normal – er dryswch i'r cyfryngau. Ond mae'r fath ddisgwyliadau'n tynnu oddi wrth y gwir effeithiau, os na sylweddolir fod unrhyw ddôs o ymbelydredd yn or-ddôs.

Os parhawn i geisio dim ond atebion rhesymegol, byddwn yn colli golwg ar y gwir ddarlun beunydd – darlun o fregusrwydd dynol, darlun o ba mor fregus yw'r cydbwysedd rhwng pobl a natur. Rwyf bellach yn credu, cyhyd ag y ceisiwn osod Chernobyl o fewn ein dealltwriaeth bresennol o drychinebau, y byddwn yn dal i fethu ei amgyffred. Mae'n profiadau o drychinebau eraill yn amlwg yn annigonol oherwydd rydym yn wynebu maes dieithr na chafod neb brofiad ohono o'r blaen, sy'n mynnu dealltwriaeth newydd, a math newydd o ddewrder. **Adi Roche**

**adiroche@adiccp.org**

**heddweithredu: Mae Project Plant Chernobyl yn dod â phlant i Gymru o ardaloedd llygredig dwyrain Ewrop. Mwy o wybodaeth gan Galina Latypova (Aberystwyth): (01974) 241 079 Arfon Wyn (Ynys Môn): (01248) 810 451 Allan Carter (Caerfyrddin): (01267) 236 451 neu Broject Plant Chernobyl, Kinder House, Fitzalan Street, Glossop, Derbys SK13 7DL. Tel: 01457 862112 / 863534. Ebost: linda@ccprojectuk.fsnet.co.uk**

**hanes heddwch**

## Rhown Gymru ar y map heddwch

Mae'r Mudiad dros Ddileu Rhyfel (MAW) yn bwriadu cynhyrchu Map Heddwch o'r Ynysoedd Prydeinig. Nid project bach na thymor-byr mo hyn, ac bydd angen cyfraniadau gan bobl ledled gwledydd Prydain ac Iwerddon.

Gweledigaeth MAW yw y gallai map o'r fath gael ei arddangos mewn mannau fel ysgolion, llyfrgelloedd a swyddfeydd croeso. Byddai hefyd yn cael ei gyhoeddi ar ffurf llyfr gyda disgrifiad llawn o bob safle. Y cam cyntaf fydd cofnodi'r fath bethau a'r lle y ganed gweithredwyr heddwch enwog, cerfluniau, placiau, safleoedd gweithredoedd dros heddwch ac ati, y byddai'n rhaid eu cofnodi a'u disgrifio'n fanwl-gywir, gyda chyfeiriadau grid lle bo angen.

Felly, beth am gael Cymru ar y map yma! Os oes gennych wybodaeth am unrhyw safle neilltuol yng Nghymru, anfonwch ei enw a'ch manylion chi i'r cyfeiriad isod. Bydd Lesley Docksey'n anfon pro forma atoch i'w lenwi. Meddyliwch am: lefydd lle cynhaliwyd digwyddiadau heddwch Cymreig pwysig (gadewch i *ni* benderfynu beth sy'n bwysig), lle mae pyst coffa Hibakusha, gerddi heddwch, lle ganed heddychwyr enwog o Gymry, mannau lle gwnaeth Pererindodau Heddwch gychwyn neu ddod i ben . . . mae angen llenwi Cymru! Mae gwireddu'r syniad yn orchwyl anferth – ond am syniad gwych.

Go dda MAW.

**heddweithredu:**

**Cysyllter â Lesley Docksey, 1 Court Farm Cottages, Buckland Newton, Dorset DT2 7BT.**

**Lesley.Docksey@abolishwar.org.uk**

**lesley@togetherness.freeserve.co.uk**

**Byddwch yn eofn, mae'ch syniadau chi'n bwysig.**

# Cymru Ddi-niwclear




ffoto: Martin W. Roberts Arcade

***Protest Breudeth Mehefin 1981***

**Ar 23ain Chwefror 1982, arwyddodd Clwyd, yr olaf o'r wyth Cyngor Sir Cymreig, Ddatganiad ei fod yn dymuno bod yn 'Rhanbarth Di-niwclear' – ac felly, daeth Cymru gyfan yn Ddi-niwclear.** Erbyn hynny, roedd 21 o awdurdodau lleol Cymru wedi arwyddo. Cafodd y datganiad hwn ei grybwyll fel enghraifft o neges o obaith i'r byd gan un wlad fechan. Roedd yn ganlyniad ymgyrchu dwys gan bobl 'gyffredin' yng Nghymru. Roedd llawer wedi cael eu dychryn gan gyhoeddiadau fod UDA yn bwriadu lleoli taflegrau Cruise arfog ym Mhrydain, newyddion fod y llywodraeth Brydeinig yn bwriadu prynu'r system arfau niwclear Trident 'newydd' i gymryd lle Polaris, fod y diwydiant niwclear yn chwilio am rywle i gladdu gwastraff niwclear, a chynlluniau'r llywodraeth i adeiladu cenhedlaeth newydd o orsafoedd pwer niwclear yng Nghymru a'i chyffiniau. Ar yr un pryd, roedd Greenpeace yn rhybuddio pobl am y gwastraff ymbelydrol oedd yn dal i gael ei ollwng o Windscale (Sellafield) i mewn i Fôr Iwerddon.

## Cydweithrediad ac amddiffyniad

Roedd y cysyniad o Gymru Ddi-niwclear yn realistig ac yn ddoeth. Ystyrid ei bod yn hanfodol lleihau, os nad dileu, peryglon technoleg niwclear i gymunedau Cymru. Ymunodd awdurdodau lleol â mudiad a oedd wedi deillio o'r mudiad Di-niwclear – yr Awdurdodau Lleol Di-niwclear.

Mae'r mudiad hwn heddiw yn dal i feithrin cydweithrediad rhwng awdurdodau sy'n perthyn iddo sydd â'r un dyheadau di-niwclear, sy'n ceisio gwneud y diwydiant niwclear yn fwy atebol ac sy'n gweithio i amddiffyn y cyhoedd yn well yn erbyn peryglon niwclear. Cred fod 'ataliaeth yn well na gwellhad' ac mae'n darparu cyngor arbenigol i awdurdodau lleol ar faterion niwclear a allai effeithio ar gymunedau lleol.

## Gweld i'r dyfodol

Er bod manylion y broblem niwclear wedi newid yn ystod y 24 mlynedd diwethaf, mae'r peryglon yn parhau, a byddai rhai'n dweud fod hyd yn oed mwy o angen diogelu ein planed. Dwi'n cofio disgwyl am oriau y tu allan i swyddfeydd Cyngor Dosbarth Preseli yn Hwlfforddd un bore ym 1981, a finnau'n fam ifanc. Safais gyda fy nghyd-brotestwyr, yn obeithiol y byddai'r cynghorwyr roeddem wedi bod yn pwyso arnynt ers wythnosau yn cytuno i arwyddo i fod yn 'ddi-niwclear' yng nghyfarfod y cyngor y tu fewn i'r adeilad.

Mae'r baban roeddwn yn ei ddal yn fy mreichiau y bore hwnnw bellach yn ddyn ifanc sy'n dilyn ei lwybr ei hun drwy fywyd ac yn gobeithio, fel yr oeddwn innau, y bydd y dyfodol mor ddi-niwclear ag y gallwn ei sicrhau. Byddai'n rhaid gofyn iddo ef a yw'n dal i synhwyro a rhannu'r gobaith roeddem oll yn ei deimlo wrth ddathlu'r penderfyniad di-niwclear hwnnw ym 1982.

## Rhagrith

Clywir yr un safonau deublyg ag eiddo'r rhai sydd â chyfrifoldeb am bwer, arfau ac ymlediad niwclear yn y newyddion heddiw ynglyn ag Iran. Yn 2006, mae'r awdurdodau yn cydnabod yn agored y cysylltiadau rhwng pwer niwclear ac arfau niwclear, ac yn dadlau'r achos dros gadw meddiant yn nwylo aelodau'r 'clwb niwclear' yn unig. Dros y blynyddoedd, rydym wedi gwneud llawer i'w gwneud yn atebol, ond mae hyn yn orchwyl am fwy nag oes. Mae'r gwaith i atal yr holl anghyfiawnder a'r anlladrwydd sydd ynghlwm wrth fodolaeth arfau niwclear a thechnoleg niwclear yn parhau.

Da chi, darllenwch Ddatganiad terfynol Clwyd unwaith eto (isod) ac ailategu mor benderfynol yr ydych y bydd Cymru, Prydain, Ewrop a'r Byd oll yn ddi-niwclear ac yn ddiogel i'n plant ac i blant ein hwyrion.

**Jill Stallard**

"Pe bai Senedd Gymreig yn bod, byddai hithau yn ddi-niwclear gan mwyaf gan fod y rhan fwyaf o bleidiau gwleidyddol yng Nghymru, yn ogystal ag ASau ac awdurdodau lleol, eisoes wedi cael eu hethol ar sail polisïau di-niwclear. Mae Arolygon Barn hefyd wedi dynodi mwyafrif yng Nghymru yn erbyn arfau niwclear Prydeinig; mae arolygon ers 1980 wedi dangos mwyafrif yn erbyn ehangu pwer niwclear."

**Tony Simpson, Is-gadeirydd CND Cymru ar y pryd 'Pumed Penblwydd Hapus, Gymru Ddi-niwclear' *Sanity* Chwefror 1987**

# Datganiad Clwyd

Mae'r Penderfyniad a wnaed gan Gyngor Clwyd heddiw i ddatgan fod ei sir yn rhanbarth di-niwclear yn un o bwys arbennig i Gymru gyfan. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwnaed datganiadau cyffelyb gan y naill sir Gymreig ar ôl y llall, gan ddechrau gyda Dyfed a dod i ben heddiw gyda Chlwyd.

Mae consenswS barn y Cymry yn y mater hwn wedi bod yn amlwg ers amser maith. Mae grwpiau gwrth-niwclear lleol a ddaeth i fod yn wirfoddol wedi gallu cyd-drefnu eu gweithgareddau i droi Cymru fel endid yn barth di-niwclear, ac mae arolygon a deisebau wedi dangos y gefnogaeth ysgubol i'w hymgyrch gan boblogaeth sydd yn pryderu'n ddwys am ymlediad niwclear, ac sydd am yr hawl i leisio barn am ddyfodol y ddynolryw.

Oherwydd penderfyniad heddiw, gallwn yn awr ddatgan wrth y byd fod Cymru gyfan, drwy ei chynrychiolwyr etholedig democrataidd, wedi ei datgan ei hun yn barth di-niwclear. Drwy'r weithred hon, mae Cymru wedi rhoi arweiniad moesol i wledydd eraill Ewrop a gweddill y byd.

Wrth gyfleu wrthynt ein neges o obaith ac ysbrydoliaeth, galwn ar genhedloedd eraill Ewrop i amlygu eu pryder dwfn ynglyn â dyfodol gwareiddiad. Galwn arnynt i ymrwymo i achos gwaredu Ewrop rhag dinistr llwyr drwy gymryd y cam cyntaf o ddatgan eu mamwlad yn barth di-niwclear.

23 Chwefror 1982




## Ar Strydoedd Caerdydd

Mae Is-gadeirydd CND Cymru, Ray Davies, a Côr Cochion, sy'n ymgyrchu'n gyson ar strydoedd Caerdydd, wedi dosbarthu cannoedd o daflenni ynglwn â pheryglon pwer niwclear. Mae siopwyr a gweithwyr wedi bod yn eiddgar i arwyddo'r ddeiseb 'Cadwch Gymru'n Ddi-niwclear' a amgaeir gyda'r copi hwn o *heddwch*. Meddai Ray Davies: 'Y broblem fwyaf sy'n wynebu heddwch a diogelwch ein byd yw'r don newydd o arfau niwclear, a'r posibilrwydd y bydd pwer niwclear yn cael ei roi yn ôl ym mholisi ynni'r llywodraeth. 'Mae llu o wahanol ffyrdd o ymgyrchu ar y materion hyn: deisebu, sgrifennu llythyron at ein cynrychiolwyr etholedig, a darbwyllo'r Cynghorau hynny sydd wedi cefnu ar Fforwm y Cynghorau Lleol Di-niwclear i ailymuno ag ef.'

**heddweithredu: I gysylltu â Côr Cochion a chwarae rhan yn yr ymgyrchu, ffoniwch Ray Davies (02920) 889 514.**

ynni niwclear

# Gorau po Leia

**Roedd arolwg ynni cynta'r llywodraeth (a gyhoeddwyd yn 2002) yn pwysleisio y dylem fod â polisi ynni hyblyg, yn hytrach na'r rhaglenni buddsoddi mawr, drud ac anhyblyg fel y rhaglen 10GW a gynigiwyd gan y diwydiant niwclear.**

Agwedd yn perthyn i'r 1980au yw credu fod angen gorsafoedd pwer digon mawr i gyflenwi dinas gyfan gan fod datblygiadau mewn technoleg yn golygu bellach y gall tai, swyddfeydd ac ysgolion unigol gynhyrchu eu trydan eu hunain. Mae defnyddio systemau nwy ac olew i gynhesu ein hadeiladau mor gyffredin yn awr nes ei bod hi'n hafodol dod o hyd i ffyrdd arloesol o grynhoi'r gwres sy'n mynd yn wastraff. Mae unedau gwres a phwer cyfun yn ddigon bychan erbyn hyn i allu cymryd lle bwyleri confensiynol yn y cartref. Fe gymer amser i hyn ddigwydd, ond gan mai oes bwyler gwres canolog ar gyfartaledd yw 15 mlynedd, mae tri cylch llawn rhwng nawr a 2050. Mae'n bosib cynhyrchu digon o drydan drwy'r rhain i wneud gorsafoedd pwer niwclear newydd yn gwbl ddianghenraid - a dydy brawychwyr ddim yn mynd i ymosod arnyn nhw. Ynghyd â mesurau arbed ynni eraill yn ein hadeiladau, a ffynonellau ynni adnewyddadwy, mae'n bosib cyflawni gweledigaeth y papur gwyn ynni radical a blaengar a gyhoeddwyd yn2002.

Mae'r dadleuon a gynigir o blaid gwneud arolwg ynni arall (sef tystiolaeth gryfach o natur a chwmpas newid hinsawdd a phryderon cynyddol ynglwn â diogelwch cyflenwadau ynni'r DU yn y dyfodol) mor ffug â'r rhai a aeth â ni i ryfel yn erbyn Irac. A allai rhaglen o adweithyddion niwclear newydd gyfrannu at gyrraedd ein targedau allyriant a sefydlu cyflenwad ynni diogel? Yr ateb gonest yw bod yr ansicrwydd yn anferth ac y gallai'r fath raglen gael ei pheryglu gan unrhyw nifer o ffactorau, o ymosodiadau gan frawychwyr i ddiffyg wraniwm gradd uchel, sydd y tu hwnt i'n rheolaeth.

**Hugh Richards, Cynghrair Wrth-niwclear Cymru**

**heddweithredu:**
**Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer yr ail arolwg ynni yn para tan Ebrill 14eg. Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael ar: http://www.dti.gov.uk/energy/review/energy_review_consultation.pdf**
**Lleisiwch eich barn wrth eich AS a'ch Aelod Cynulliad, a phrotestiwch yn erbyn strategaeth y llywodraeth o lyfnhau'r broses o drwyddedu dyluniadau adweithyddion niwclear heb eu profi ac i gyfyngu ar ein gallu i'w harchwilio mewn ymchwiliadau cyhoeddus.**
**Cysyllter â CWNC am bapurau cefndir a deunyddiau ymgyrchu (sticeri ac ati) Cynghrair Wrth-niwclear Cymru, Blwch S.P. 1, Llandrindod, Powys LD1 5AA**
**Ffôn: (01982) 570 362 Ebost: hughrichards@gn.apc.org**

# Deiseb dros Gadw Cymru'n Ddi-niwclear!


Ym mis Ionawr, lansiodd grwpiau gwrth-niwclear ac amgylcheddol ymgyrch newydd i 'Gadw Cymru'n Ddi-niwclear', gan ddweud fod pwer niwclear yn ddrud, yn cymryd amser maith i'w sefydlu, yn fygythiad i iechyd y cyhoedd ac yn darged posib i frawychwyr. Mae'r ymgyrch yn galw am bolisi ynni i Gymru a fydd yn adlewyrchu nodau 'Cymru Gynaliadwy' y Cynulliad, gan ddatblygu effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy. Mae'r ymgyrch hefyd yn gofyn i weithredwyr ofyn i'w mudiadau i gymeradwyo'r ymgyrch i Gadw Cymru'n Ddi-niwclear. Gofynnwch i'r AS i arwyddo Cynnig Boreol 1565 i gefnogi'r ymgyrch hefyd.

**heddweithredu :Lansiwyd deiseb wedi ei chyfeirio at Tony Blair, 'Cadw Cymru'n Ddi-niwclear' i gyd-daro ag Arolwg Ynni'r llywodraeth. Mae'r ddeiseb hon ar gael ar www.keepwalesnuclearfree.org.uk neu oddi wrth CND Cymru (gweler cysylltiadau. tud. 16).**

adolygiad

# Warfare or Welfare?

### Colin Archer
### Ysgrifennydd Cyffredinol IPB




Byddwn yn dewis terfynau ar gyfer ein hymgyrchoedd ac yn treulio amser yn eu diffinio nhw a'u hamcanion, ond gwyddom, mewn bywyd go iawn, fod pob mater gwleidyddol, amgylcheddol a moesol yn rhan o'r un stori. Gallai'r llyfr 94-tudalen yma, a gyhoeddwyd gan y Biwro Heddwch Rhyngwladol, fod yn adnodd gwerthfawr ar gyfer y rheini 'na ddysgant ryfel mwyach', ac i ymgyrchwyr ym maes 'datblygiad'. Mae'r tudalennau'n gondemniad hallt ar yr ewyllys ddynol i fygwth, brifo a lladd, ac mae'n egluro sut mae agenda ryfel o'r fath yn dargyfeirio adnoddau gwerthfawr oddi wrth yr anghenus, yn tanseilio a dadleoli cymunedau ar raddfa anferth, ac yn llygru'r adnoddau naturiol anadferadwy maen nhw'n dibynnu arnynt.

Dydy'r llyfr ddim yn hawlio bod â'r holl atebion; yn hytrach, mae'n rhywbeth y gall ymgyrchwyr ei ddefnyddio. Mae cael eglurhad clir a chryno mewn un ddogfen o holl wahanol arfau llofruddiaeth sefydliadol a 'llaw-rydd' yn annifyr, ond bydd o ddefnydd i'r rheini ohonom sy'n ceisio deall a newid pethau er gwell.

Pe bai 'Warfare or Welfare?' heb gael ei gyhoeddi â'r nod o 'adfywio syniad y CU yn y 1980au i Ddiarfogi a Datblygu', efallai y byddai'r teitl yn ymddangos yn rhy gymedrol. Oherwydd, wrth ddarllen, daw un peth yn glir – nad rhywbeth mor addfwyn a chymedrol â 'lles' yw'r gwrthwyneb i'r holl baratoadau at ryfel a restrir ynddo. Y gwrthwyneb i'r rhestri erchyll o arfau niwclear, cemegol, biolegol a chonfensiynol mae bodau dynol yn eu derbyn fel rhan o'r statws quo, ac yn gwneud esgusodion dros eu creu, bygwth eraill â nhw, a hyd yn oed eu defnyddio, yw dim llai na gallu pethau byw i oroesi: bywyd ei hun.

Fel y dywed Llywydd yr IPB, Cora Weiss, yn y Rhagair: "Bydd heddwch yn dibynnu ar fwy na dileu tlodi neu gefnogaeth i ddatblygu. Yn gyntaf, bydd yn dibynnu ar ddileu'r holl arfau niwclear sy'n crogi fel cleddyf Damocles uwch ein pennau, bob un ohonom. Bydd gwella amodau byw, hyfforddi pobl ar gyfer swyddi da, darparu addysg sy'n datblygu'r gallu i feddwl yn feirniadol ac yn dysgu ynglyn â hawliau dynol, cydraddoldeb rhywiol a chyfiawnder cymdeithasol ac economaidd yn gwneud llawer i ddileu'r dicter a deimlir gan gymaint o bobl o fod wedi 'cael eu gwthio oddi ar y tren'."

**Jill Stallard**

Colin Archer Ysgrifennydd Cyffredinol IPB
*Warfare or Welfare?*
Cyhoeddir gan y Biwro Heddwch Rhyngwladol (IPB) 006
ISBN: 92-950060-03-8
Dosberthir gan: Y Mudiad dros Ddileu Rhyfel
Copïau unigol £5 + £1 cludiant
Anfonwch siec yn daladwy i IPB gyda'ch archeb at:
Movement for the Abolition of War (MAW) 11 Venetia Road, Llundain N4 1EJ.

cerdd

# Gwybodaeth Amgen O Fethlehem I Fangor

### Gwilym Morus
### Mohamed Najem
### Waseem Qassis
### Luke Evans

Ystyr yr ysgrifen Arabeg ar y clawr o C Dd yw 'Boed heddwc' arnat.Wrth ymweld a Palestina ym mis Chwefror 2005,recordiodd Gwilym Morus, cerddor Cymraeg o Fangor, dwy gan gyda dau gerddor talentog o Bethlehem o'r enw Mohamed a Waseem. Gweithiodd y tri ar y cyd I greu dwy gan a oedd yn adlewyrchu eu traddodiadau brodorol eu hunain. Ar ôl dychwelyd I Gymru rhoddodd Gwilym y deunydd a recordiodd I'w gyfaill. Luke Evans a gyfansoddodd dwy gan arall yn seiliedig ar y deunydd gwreiddiol. Er mwyn I bobl fedru clywed ffrwych eu gwaith ac ariannu cynllun pellach yn y dofodol, cytunodd Cymdeithas y Cymod I dalu am gynhyrchu'r CDd hwn. Bwriad cynllun Gwybodaeth Amgeb yw codi arian I alluogi Mohamed a Waseem I ymweld a Chymru yn yr haf 2006, er mwyn cyfansoddi mwy o gerddoriaeth ar y cyd gyda Gwilym a'I gyfeillion. Mea 100% o'r arian a godwyd yn mynd tuag at ariannu'r cynllun.

**O Fethlehem I Fangor**
**wedi cynhyrchu am rasal.cyf**
**ar gael o: gwilym_morus@hotmail.com neu www.cymdeithasycymod.org.uk(01286) 672 257**

# Ninety Years of Working for Peace in Wales

**Women's International League for Peace and Freedom**
**1915 – 2005**
**Katrina Gass**
**Cyhoeddwyd gan WILPF**
gyda chefnogaeth ariannol gan y Siop Heddwch

Llyfryn 42-tudalen yn Saesneg sy'n adrodd hanes 90 mlynedd o ymgyrchu dros heddwch gan fenywod yng Nghymru.
Ar gael gan WILPF www.ukwilpf.gn.apc.org neu www.peacewomen.org neu cysyllter â Katrina Gass (01873) 855 760

**Cerddi Coch!**
**Mae**
# Red Poets 11
**ar gael nawr.**
Cynulliad anffurfiol o awdurdon, darllenwyr a rhai sy'n caru barddoniaeth radicalaidd yng Nghymru yw'r Beirdd Coch, sydd wedi creu mudiad gwerinol unigryw sy'n uno radicaliaid o bob mudiad gwleidyddol,
neu ddim mudiad o gwbl.
Yn y deng mlynedd diwethaf,
cyhoeddwyd 140 o feirdd yn Red Poets.
**Croeso i gyfraniadau gan bawb o bob oed.**
**I ymuno â'r Beirdd Coch a derbyn copi o'r rhyfyn nesaf, anfonwch £5 at Y Beirdd Coch/Red Poets, Blwch SP 661, Wrecsam LL11 1QU.**
**Gwell Coch na Chynganeddol !**

llythyr o uda

# Nodiadau Trefnu o America



Dygodd Undeb Hawliau Sifil America (ACLU) achos cyfreithiol ar Chwefror 1af ar ran ein mudiad ni, y Rhwydwaith Byd-eang yn erbyn Arfau a Phwer Niwclear yn y Gofod. Gwnaeth ACLU gais hefyd o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ffederal, ar ran ymgyrchwyr yn erbyn y rhyfel o bum talaith arall er mwyn ceisio darganfod faint roedd y Pentagon wedi bod yn ysbïo ar ein hymdrechion torfol. Gyda'r cyfrinachedd cynyddol a welsom yn ddiweddar, dwi'n credu ei bod hi'n annhebyg y cawn weld mwy na mymryn o'r ffeiliau gwladol sy'n cael eu cadw arnom. Gyda phenodi'r barnwr ffederal Sam Alito i Oruchaf Lys yr UD, mae gweithredwyr yn yr UD yn ofni'r gwaethaf o ran ein hawliau sifil.

Mae'r mudiad blaengar yn yr UD yn tyfu'n gyson nawr. Mae toriadau mewn anghenion dynol ar lefel leol, daleithiol a ffederal yn gorfodi pobl i wneud y cysylltiadau, gyda mwy na $6 biliwn y mis yn cael ei wastraffu ar y rhyfel yn Irac. Nid yn aml y byddaf yn ymgyrchu mewn etholiadau lleol gan nad oes neb cyffrous yn sefyll fel arfer, ond dwi wrthi nawr yn cefnogi dyn sy'n ymladd am sedd yn y Gyngres ym mis Tachwedd. Cafodd ei fab ei recriwtio fel sgïwr Olympaidd gan Warchodlu Cenedlaethol Vermont, ac yn awr mae'r gwr ifanc yma yn Irac yn gwarchod confois milwrol – ac wedi osgoi cael ei ladd o drwch blewyn dair gwaith eisoes. Cyngresydd Democrataidd 'rhyddfrydol' yw'n cynrychiolydd presennol, sy'n honni bod yn erbyn y rhyfel, ond sy'n dal i bleidleisio o blaid pob doler a fynnir gan George W. Bush ar gyfer Irac. Mae'n hymgeisydd ni yn rhedeg yn erbyn y 'rhyddfrydwr' ar y rhyfel ac yn galw am beidio â'i gyllido a 'dod â'r milwyr adre nawr'. Mae grwp o hen ymgyrchwyr heddwch fel fi wedi ffurfio 'Veterans for Dexter' i gefnogi ymgais ein ffrind Dexter Kamilewicz i gyrraedd Ty'r Cynrychiolwyr.

Mae arweinwyr y pleidiau Gweriniaethol a Democrataidd am gadw'r UD (a Phrydain) yn Irac ac Afghanistan am byth. Mae'r ddwy'n cefnogi ymerodraeth – ar ffurf globaleiddio corfforaethol – lle bydd adnoddau prin yn cael eu rheoli gan y corfforaethau mawr. Felly, mae rhyfel di-derfyn yn angenrheidiol. Yr unig le y bydd swyddi, sy'n mynd yn fwyfwy prin yn ein gwlad, ar gael i bobl ifanc yn y dyfodol fydd gyda'r lluoedd arfog, yn helpu i ddiogelu'r deyrnas gorfforaethol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi helpu i drefnu meddiannu swyddfeydd ein harweinwyr cyngresol o Maine wyth gwaith. Byddwn yn mynd i mewn i'r swyddfa ac yn darllen enwau milwyr o'r UD a nifer gyffelyb o Iraciaid diniwed sydd wedi marw yn y rhyfel anghyfreithlon ac anfoesol hwn. Pan ddechreuson wneud hyn, cymerai ryw bedair awr, nawr mae'n cymryd 6½ i'w darllen i gyd. Byddwn yn torri X ar faner anferth sydd gennym o Feirwon Rhyfel Irac y byddwn yn ei hagor ar lawr y swyddfa. Ar ôl pob enw, byddwn yn canu cloch. Bob tro y byddwn yn meddiannu fel hyn, mae mwyfwy o bobl yn ymuno â ni. Dim ond unwaith, ar Ragfyr 15fed, y cawsom ein restio am ymweliad swyddfa o'r fath, efallai am i ni gynnal y digwyddiad ar ddydd yr etholiad yn Irac.

**Dymuniadau gorau i bawb yng Nghymru. Daliwch i frwydro dros ddaioni,**
**Bruce Gagnon**

**Bruce Gagnon yw Cyd-drefnydd y Rhwydwaith Byd-eang yn erbyn Arfau a Phwer Niwclear yn y Gofod. Mae llyfr Bruce, *Come Together Right Now – Organising Stories from a Fading Empire* ar gael ar y wefan http://www.space4peace.org**

# Taith Ryddid Vanunu

## Faslane/Glasgow – Llundain Ebrill 2006

Ar yr 21ain o Ebrill 2006, bydd Mordechai Vanunu wedi bod yn garcharor yn Israel ers 20 mlynedd.

Am iddo ddweud wrth y byd fod Israel yn datblygu arfau niwclear yn y dirgel, treuliodd Vanunu 18 mlynedd yn y carchar, ac am 12 o'r rheini fe'i cadwyd mewn cell ar wahân. Gollyngwyd ef o'r carchar ym mis Ebrill 2004, ond nid yw'n ddyn rhydd o hyd. Mae cyfyngiadau caeth ar ei ryddid i siarad, teithio a chysylltu ag eraill sy'n amlwg yn tramgwyddo'i hawliau dynol. Gwrthodwyd pasbort iddo, ni chaiff adael Israel ac mae'n cael ei erlid beunydd gan yr awdurdodau. Mae 20 mlynedd o gaethiwed 20 mlynedd yn rhy hir. Er mwyn protestio yn erbyn yr erlid parhaus ar Mordechai, ac i fynnu rhyddid llwyr iddo a therfyn ar arfau niwclear, trefnir 'Taith Ryddid Vanunu'. Taith feiciau fydd hon, yn cychwyn yn Faslane, canolfan arfau niwclear Prydain ger Glasgow, ar y 7fed o Ebrill 2006. Bydd y daith yn mynd yn ei blaen i Glasgow ac yn dod i ben yn Llundain ar yr 21ain Ebrill. Bwriedir aros mewn gwahanol drefi a dinasoedd ar y ffordd lle cynhelir digwyddiadau i alw sylw at sefyllfa Vanunu ac at arfau niwclear Israel – sydd yn dal yn gyfrinach a heb fod o dan arolygiaeth ryngwladol.



**heddweithredu: Bydd Taith Ryddid Vanunu yn mynd o Faslane i Glasgow, Carlisle, Manceinion, Stoke, Birmingham, Rhydychen a Llundain. Croeso i unrhyw feicwyr ymuno â ni am am ba bellter ag a fynnir, o filltir neu ddwy neu awr neu ddwy, i gwpl o ddyddiau neu am y daith gyfan! Gall pobl nad ydynt am seiclo ein cefnogi drwy drefnu cymorth ymarferol a chyhoeddusrwydd. Croeso hefyd i unrhyw gyfraniadau a syniadau creadigol am ddigwyddiadau neu weithgareddau codi-arian. Am fwy o wybodaeth a ffurflen gais,**
**gweler: www.vanunufreedomride.org.uk**
**e-bost: info@vanunufreedomride.org.uk**
**neu, ffoniwch: 0845 458 1965**

# cysylltiadau cnd cymru

www.cndcymru.org

**cadeirydd:**
Jill Evans MEP
(01824) 709 700
jievans@europarl.eu.int

**is-gaderyddion**
Brian Jones
(01792) 830 330

Olwen Davies (y canolbarth)
(01970) 611 994

Ray Davies (de cymru)
(029 20) 889 514

**aelodaeth & aelodau cysylltiol:**
Monica Bradley
7, Brook Terrace,
Mochdre, Drenewydd
SY16 4JG
(01686) 626 350
aelodaeth@cndcymru.org

**masnachu**
Jan Jones
(01792) 830 330

**trysorydd**
Jean Bryant,
16,Clôs
Ty'n y Cymer,
Porth, Y Rhondda CF39 9DE

**golygydd heddwch ac ysgrifenydd cyffredinol:**
Jill Stallard,
Y Drain Gwynion,
Heol yr Eglwys, Talywaun,
Pontypwl NP4 7EF
(01495) 773 180
jill@cndcymru.org

**Gwrthdystiad a phrotest yn Llundain Dydd Sadwrn 18fed o Fawrth**

## Milwyr Adre o Irac! Peidiwch ag Ymosod ar Iran!

**Cysylltiadau ar gyfer gwybodaeth ynglwn â chludiant**

**De Cymru: Clymblaid yn erbyn Rhyfel Abertawe** ffoniwch (01792) 526 405, neu 07940 108 146
email: swansea@stopwar.org.uk neu cardiff_troopsout@hotmail.com

**Rhondda Cynon Tâf**
derek.hanlin@ukonline.co.uk
(01443) 674 529

**Bro Emlyn**
ffoniwch: (01559) 371 201
harry@wildwest.com

**Rhwydwaith Heddwch a Chyfiawnder Aberystwyth**
www.aberystwythpeaceandjusticenetwork.co.uk
apjg@yahoogroups.co.uk
07817 596 285

**Heddwch a Chyfiawnder Bangor ac Ynys Môn**
phil@tycerrig1.freeserve.co.uk
(01248) 490 715

**Gweithredu dros Heddwch a Chyfiawnder Trefyclo**
(01547) 550 354

**Fforwm Heddwch a Chyfiawnder Wrecsam**
wrexhamsaw@yahoo.com
0845 304505

**Ymunwch ag CND Cymru fel y gallwn, gyda'n gilydd,sicrhau'r dyfodol di-niwclear rydym yn dyheu amdano.**

enw:........................................................................

cyfeiriad:..................................................................

..................................................................................

côdpost:........................

teleffon:..........................ebost :................................

Amgaeaf siec/AB am £ ☐ yn daladwy i *CND Cymru*

☐ pâr mewn gwaith: £16;

☐ oedolyn: £12;

☐ di-waith a phensiynwyr: £4;

☐ ieuenctid a myfyrwyr: £4;

***Anfonwch at: Aelodaeth CND Cymru, 7 Brook Terrace, Mochdre, Y Drenewydd SY16 4JG***
**aelodaeth@cndcymru.org**

# dyddiadau dyddiadur

**Mawrth 8fed PENARTH Cyfarfod Cyhoeddus gyda Bruce Kent 'Tlodi a Rhyfel – mae'n bryd dwyn y ddau i ben'.** Ymgyrch Penarth i Ddileu'r Fasnach Arfau. Am fanylion pellach, cysyllter â 029 20711943

**Mawrth 18fed Gwrthdystiad yn Llundain** a hefyd yn Basra, Washington, Baghdad, ac ym mhedwar ban y byd fel rhan o Ddiwrnod Gweithredu i nodi trydydd mlwyddiant yr ymosodiad ar Irac, yn galw am ddod â'r milwyr adre ar unwaith a dwyn y goresgyniad i ben. http://www.stopwar.org.uk/index.htm

**Mawrth 23ain LLUNDAIN. Chernobyl 20 Mlynedd yn Ddiweddarch.** Wythfed Cynhadledd Awdurdodau Lleol y DU ac Iwerddon ar Beryglon Niwclear. Neuadd y Ddinas, LLUNDAIN. Trefnwyd gan yr Awdurdodau Lleol Di-niwclear, Stafell 6005, Cyngor Dinas Manceinion, Neuadd y Dre, Manceinion M60 3NY. Tel.: 0161 234 3244 c.frisby@manchester.gov.uk gwefan:http://www.nuclearpolicy.infoFriday

**Ebrill 1 CAERDYDD Gwylnos Menywod mewn Du** (hanner dydd tan 1pm, grisiau'r Amgueddfa Cenedlaethol **(01443) 473 592**

**Ebrill 4ydd LLUNDAIN. Cyfarfod Cyhoeddus: Henry Richard a Mudiad Heddwch y 19eg Ganrif.** Gyda Peter Van der Dungen o Brifysgol Bradford. Lleoliad i'w gadarnhau. Trefnwyd gan y Mudiad dros Ddileu Rhyfel, 11 Venetia Road, LLUNDAIN N4 1EJ. www.abolishwar.org.uk/home.shtml13

**Ebrill 13eg, Dydd Iau Cablyd**
**Bae Systems GLASCOED, Gwent** Cwrdd gweddi y tu allan i'r brif glwyd pan fydd shifft y bore'n cyrraedd (amser i'w gadarnhau). Trefnwyd gan Rwydwaith Cristnogol YDFA Penarth. Gwybodaeth ar 02920 711943.

**Ebrill 15fed–16eg CHERBOURG, FFRAINC Rali Wrth-niwclear** i brotestio yn erbyn Gorsaf Pwer Niwclear Newydd (EPR). http://www.stop-epr.org/marche-eng.php

**Ebrill 26ain Chernobyl - Ugain mlwyddaint Damwain Niwclear Waetha'r Byd**

**Ebrill 28fed -Mai 1 ABERYSTWYTH** Fforwm Cymdeithasol Cymru gweler tud. 8

**Mai 13eg LLANDRINDOD**
**Cyngor CND Cymru.** Croeso i bob aelod a chynrychiolydd. Cysyllter ag CND Cymru i gadarnhau.

**Mai 29ain-Mehefin 3ydd RHUTHUN Eisteddfod yr Urdd** Angen siaradwyr Cymraeg/dysgwyr i helpu ar stondin CND Cymru. Cysyllter â Brian neu Jan Jones (gweler cysylltiadau) i wirfoddoli.

## HELP!

**Mae gan CND Cymru rai aelodau y gwyddom eu henwau ond nid eu cyfeiriadau. Maen nhw'n talu tanysgrifiad drwy orchymyn banc ond allwn ni ddim danfon 'heddwch' atyn nhw. Os oes gennych chi wybodaeth a allai'n helpu, byddai'n dda gan y Trysorydd glywed oddi wrthych.**